~ www.ecorwyddfa.co.uk ~

ECO'r Wyddfa

Rhif: 453
Mawrth 2017
Pris: 70c

# Serenu ar y sgrin






Erin Gwilym, o Lanrug, sy'n actio rhan Loli mewn cyfres ddrama newydd i blant bach ar S4C, Deian a Loli. Cyfres am efeilliaid direidus sy'n meddu ar bwerau hudol ydi hi, sy'n cael ei chynhyrchu gan gwmni teledu Cwmni Da yng Nghaernarfon. Mae'r efeilliaid yn medru rhewi eu rhieni i'r unfan drwy ddweud y gair hud, sef RIBIDIREW! Mae mwy o benodau ar y gweill, a bydd Erin yn ail-ddechrau ffilmio eto yn yr haf. Moi Hallam, o'r Felinheli, sy'n actio rhan Deian.

Dylan Hall o Gwm-y-glo, a'i deulu, sy'n serennu mewn cyfres deledu newydd i blant bach o'r enw Teulu Ni, a gaiff ei chynhyrchu gan Cwmni Da. Mae'r gyfres yn dogfennu'r digwyddiadau mawr a bach sy'n digwydd i Dylan a'i deulu dros gyfod o dri mis, a gan bod Dylan yn un o wyth o blant, mae 'na ddigon o hwyl a sbri i'w gael ar y daith!

*Lluniau gan Kristina Banholzer*

# ECO'r Wyddfa

CYMRAEG

**RHIF 453**
**Ebrill 2017**
Argraffwyd gan
Wasg Dwyfor
Penygroes 01286 881911



**SWYDDOGION A GOHEBWYR**

**Straeon ac erthyglau ar e-bost i**
**Dafydd Whiteside Thomas**
**Bron y Nant, Llanrug**
**01286 673515**
**ecorwyddfa@gmail.com**

**CADEIRYDD Y PWYLLGOR GWAITH**
Gwyn Parri, Cynefin, Deiniolen.

**GOLYGYDD CHWARAEON**
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel. (01248) 670115

**GOLYGYDD YR IFANC**
Marged Rhys
marged_3@hotmail.com

**FFOTOGRAFFWR**
Gwyndaf Hughes, Hafan, Llanrug (672221)
glasgoed@hotmail.com

**TREFNYDD HYSBYSEBION**
Rhian Elin George, Swn yr Engan, Brynrefail (01286) 872306
ebost hysbysebioneco@yahoo.co.uk

**TREFNYDD ARIANNOL**
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (01286 674839)

**TREFNYDD GWERTHIANT POST**
Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (01286 674839)

**TREFNYDD BWNDELU**
Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

**TREFNYDD DOSBARTHU**
Hefin Jones, Pantmwyn, Llanrug. 01286 673838

**GOHEBWYR PENTREFI**

**DEINIOLEN:** Nia Gruffudd (872133)
**BETHEL:** Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel. (01248) 670115
**BRYNREFAIL:** Mrs Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed (870580)
**CAEATHRO:** Rhiannon Roberts, Cefn Rhos Isaf, Penrhos. rhiannonmai@btinternet.com
**CEUNANT:** Trystan a Sioned Larsen, Bodafon, Ceunant (650799)
**CWM-Y-GLO:** Mrs Iris Rowlands, Glanrafon (872275)
**DINORWIG:** Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)
**LLANBERIS:** Eifion Roberts, Swn-y-Gwynt (870740)
**LLANRUG:** Eryl Roberts, Peris, 56 Glanffynnon (675384)
**NANT PERIS:** Kate Pritchard (872331) neu econantperis@hotmail.com
**PENISARWAUN:** ecopenisarwaun@hotmail.co.uk
**WAUNFAWR:** Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr (650570)


## DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO 2017

| Rhifyn | Copi i law | Bwndelu | Ble |
|---|---|---|---|
| Mai | 16 Ebrill | 28 Ebrill | Deiniolen |
| Mehefin | 14 Mai | 26 Mai | Brynrefail |
| Gorffennaf/Awst | 18 Mehefin | 30 Mehefin | Bethel |

## LLYTHYRAU

Annwyl Olygydd

**Ffair Hen Lyfrau Cymraeg a Chymreig, Morlan, Aberystwyth, Dydd Sadwrn, Mai 20fed, 10 y bore tan 4 y prynhawn. (Mynediad £1.00, plant am ddim)**

Dim ond gair byr i hysbysu eich darllenwyr am ddigwyddiad go arbennig yng Nghanolfan Morlan, Aberystwyth fis Mai eleni, sef Ffair hen lyfrau. Bydd miloedd o lyfrau ail-law a hynafiaethol Cymraeg a Chymreig yn cael eu gwerthu yno gan lyfrwerthwyr o bob rhan o Gymru. Felly beth bynnag yw eich diddordeb, bydded yn hanes Cymru, hanes lleol neu lenyddiaeth dewch draw i chwilota. Byddwch yn siwr o ddod o hyd i rywbeth sydd at eich dant.

Bydd unrhyw elw a wneir yn mynd at gyhoeddi Y Casglwr, sef cylchgrawn Cymdeithas Bob Owen. Os hoffech fwy o wybodaeth mae croeso i chi gysylltu a mi trwy ffonio/tecstio 07930 160848. Dewch yn llu!

Yn gywir
Gwyn Tudur (Trefnydd)

---

Annwyl gyfaill

Daeth yn gyfnod ymgyrch aelodaeth Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, ac felly dyma ysgrifennu at ddarllenwyr Eco'r Wyddfa i ofyn i chi ymaelodi â'r Gymdeithas, er mwyn sicrhau ein bod ni'n gallu dal ati i wneud ein gwaith a sicrhau dyfodol mwy cadarn i'r iaith.

Mae llawer o newid wedi bod yn ystod yr hanner can mlynedd diwethaf, er gwell ac er gwaeth. Un peth cyson ydy'r ffaith bod Cymdeithas yr Iaith wedi bod yna bob cam o'r ffordd, yn brwydro i sicrhau hawliau i bobl Cymru, a dyfodol i'r iaith.

Mae llawer wedi'i ennill, ond mae ffordd bell i fynd eto cyn cyrraedd y nod. Mae angen rhagor o aelodau ar Gymdeithas yr Iaith er mwyn dal ati efo'r gwaith. Allwch chi gefnogi? Mi fyddai'n braf iawn gweld rhagor o bobl Eryri yn ymaelodi eleni.

Mi allwch chi ymaelodi â'r Gymdeithas drwy ein gwefan www.cymdeithas.cymru/ymaelodi gan dalu efo'ch cerdyn banc, neu drwy anfon siec at Gymdeithas yr Iaith Gymraeg, Ystafell 5, Y Cambria, Rhodfa'r Môr, Aberystwyth, SY23 2AZ. Mae croeso i chi ffonio'r swyddfa ar 01970 624501 i gael rhagor o wybodaeth neu i drefnu aelodaeth dros y ffôn. Cofiwch sôn eich bod yn ymaelodi ar ôl gweld y llythyr yn Eco'r Wyddfa!

Mae angen eich cefnogaeth yn fwy nag erioed, felly ewch ati heddiw i ymaelodi. Os na newch chi, pwy neith?

Gyda diolch,
Osian Rhys

---

Annwyl Olygydd,

**Gŵyl Hedd Wyn ym Mhenbedw**

Gan fod llu o feirdd praff yn perthyn i'ch ardaloedd hoffwn alw sylw eich darllenwyr at yr Ŵyl a drefnir gennym ym Mhenbedw ar 9 a 10 Medi 2017 i gofio cadair ddu Eisteddfod Penbedw 1917, ac ar y Sadwrn o dan ofal Archdderwydd Cymru, y Prifardd Lloyd Owen, cyflwynir seremoni cadeirio'r beirdd yn y prynhawn ( Cadair a Dwy Goron ) a bydd croeso i'r gorseddogion i ddod i gefnogi ac i gadeirio a choroni y beirdd ifanc.

Rhoddir y gadair hardd anghyffredin yn rhodd gan Gymdeithas Hedd Wyn, Fflandrys, am Gerdd, neu gyfres o Gerddi heb fod dros 100 linell ar y testun HEDD WYN. A dylid anfon y gwaith ataf erbyn 20 Gorffennaf 2017.i 32 Garth Drive,Allerton, Liverpool L18 6HW Y beirniaid ydyw y Parchedig Ddr Siôn Aled, Wrecsam, a Dr Robin Gwyndaf, Caerdydd, dau fardd meistrolgar Yr ydym hefyd yn awyddus i gael seremoni Coroni yn y ddwy iaith a hynny ar gyfer pobl ieuainc rhwng 11 a 19 mlwydd oed. Y Testun ar gyfer Cerdd neu gasgliad o gerddi yn Gymraeg ar Yr Arwr ac yn Saesneg ar The Hero heb fod dros 80 llinell Y dyddiad cau 2 Mehefin 2017. Bydd panel yn beirniadu cerddi y goron ac anfoner y gwaith ataf i'r cyfeiriad uchod.

Dewch i gael anrhydeddu a chofio Arwr o Drawsfynydd.

Gyda diolch,
y Parchedig D. Ben Rees. ( Cadeirydd Cymdeithas Etifeddiaeth Cymry Glannau Mersi ).

## RHODDION

**Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru**

£30: Arwyn Thomas, Stourbridge.

£20: Er cof am Kate Owen, 8 Hafan Elan, Llanrug.

£10: Mrs Beryl Griffith 5 Maes Gwylfa; Er cof am Iwan gan Alwyn a Valmai; Mr Trevor Edwards, Llanberis;

Megan Humphreys a'r teulu, Is-Helen, Bethel, er cof am y diweddar Danny Humphreys; Mrs Betty Bower, Tan y Marian, er cof am Ray; Eluned Jones er cof am ei rhieni gynt o 7 Stryd Siarlot, Llanberis; Leslie Larsen, Penisarwaun; Dienw, Llanrug; Mrs Glenys Griffith, Bethel.

£5: Mrs Elan Williams 15 Hafod Oleu.

£3: Helen Evans Munro, Llanrug.

£2.30: Rheon Tomos, Caerdydd; Nancy Jones,Canada.




ORIEL CWM
CWM Y GLO
Gwasanaeth fframio Lluniau o bob math ar gael ar y safle
PRISIAU RHESYMOL
Arddangosfa o luniau Gwreiddiol gan artisiaid lleol
Richard S. Humphreys
Ffon/ Ffacs- (01286) 870882

# "Diolch, Andrew"

*Ffarwelio â Gweithiwr Da*

Roedd diwedd Chwefror yn ddiwedd cyfnod yn hanes Cynllun Efe gan fod ein gweithiwr ieuenctid Andrew Settatree yn gadael ei swydd ac yn symud i waith newydd gydag Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn ardal Pwllheli a Phen Llŷn. Ac felly, noson ola'r mis, nos Fawrth, Chwefror 28 cafwyd cyfarfod arbennig iawn yng Nghapel y Rhos, Llanrug i ddiolch i Andrew am ei waith yn ein plith ym Mro'r Eco ers mis Hydref 2008.

Llywyddwyd gan y Parchg Marcus Robinson. Darllenwyd o'r Ysgrythur gan Mr Colin Jones ac roedd y canu mawl yng ngofal Mrs Susan Williams.

Diolchwyd i Andrew ar ran yr ieuenctid gan Gwernan Brooks, Llanrug a Cadi Thomas, Iolo Roberts ac Aled Pritchard, Llanberis. Siaradodd y pedwar yn wych iawn am y gwaith da a wnaeth Andrew, am ei baratoadau manwl ar eu cyfer bob amser, am ei ofal amdanynt ac am ei garedigrwydd atynt. Roedd yn amlwg eu bod wedi mwynhau ei gwmni ac wedi bod ar eu hennill o gael Andrew yn eu dysgu ac yn cyflwyno'r neges fawr am Iesu Grist iddynt. Roeddent yn amlwg yn adnabod Andrew yn dda, ac wedi dod yn ffrindiau mawr ag o. Soniwyd am wir ddiddordeb Andrew ynddyn nhw fel pobl ifanc. Un enghraifft o hynny oedd ei gefnogaeth i hogiau CIC (Clwb Ieuenctid Cristnogol) fel aelodau o dîm pêl droed ieuenctid Llanberis trwy ddod i weld eu gemau yn aml.

Cafwyd cyflwyniad gan y Parchg John Pritchard am waith Andrew a rhai o'r gweithgareddau y bu'n eu trefnu. Soniwyd am ei waith yn y capeli a'r eglwysi a'r ysgolion, y clybiau CIC a'r gweithgareddau a'r ymweliadau a drefnodd ar eu cyfer, y clybiau gwyliau a'r digwyddiadau arbennig, y cyfleoedd a gafwyd o bryd i'w gilydd i gyfarfod â Christnogion o'r Iwerddon a'r America ac Ynys Manaw, a'r holl gyrsiau yng Ngholeg y Bala. Ac er na fuom yng Nghynllun Efe erioed y gorau am dynnu lluniau, roedd digon o luniau ar gael i'n hatgoffa o rai o'r digwyddiadau hyn.

Yn ei swydd newydd, bydd Andrew yn cydweithio â'r Parchg Bryn Williams, un o hogiau Llanrug a Chapel y Rhos, sy'n weinidog ym Mhwllheli, ac roedd yn braf iawn cael cwmni Bryn yn y cyfarfod.



Cyflwynwyd anrhegion i Andrew ar ran Cynllun Efe gan Clive James a Richard Lloyd Jones, dau o Ymddiriedolwyr yr elusen. Cyflwynodd Clive siec, ac am fod Andrew mor hoff o bêl droed, crys pêl droed Cymru a llyfr am chwaraewyr rhyngwladol Cymru a gyflwynwyd gan Richard. Ac yna cyflwynwyd llun ar ran aelodau CIC Capel Y Rhos gan Non Llwyd, a rhodd ariannol ar ran Capel Coch.

Dymunwn bob bendith i Andrew yn ei swydd newydd gan ddiolch iddo am ei holl waith dros yr wyth mlynedd a hanner diwethaf. Diolch iddo am fod yn driw i weledigaeth Cynllun Efe o gyflwyno'r Efengyl i Fro'r Eco.

Mae Ymddiriedolwyr Cynllun Efe yn paratoi ar gyfer y cyfnod nesaf yn hanes yr elusen ac yn gobeithio penodi Gweithiwr newydd i gychwyn ei swydd ddechrau Medi eleni. Cewch ragor o wybodaeth yn nes at hynny, a hyderwn y bydd y gefnogaeth i waith Efe yn parhau i'r blynyddoedd a ddaw.

John Pritchard

# Yn ystod y mis a aeth heibio…

- Snowdonia Pumped Hydro yn derbyn hawl gweithredu ar gyfer eu cynllun arfaethedig yng Nglyn Rhonwy, gan roi'r hawl iddynt ei ddyblu o ran maint, ond heb newidiadau allanol. Ymgyrchwyr lleol yn parhau i wrthwynebu gan honni fod peryglon cemegol yn parhau heb eu llwyr waredu o'r safle.

- Cynllun trydan llawer llai ond yn fwy amgylcheddol-gyfeillgar, ac ym meddiant y gymuned leol – Ynni Padarn Peris – yn dechrau cynhyrchu gan ddefnyddio dwr o Afon Goch.

- Dros 400 o Aelodau Seneddol yn pleidleisio o blaid gwario bron i bedwar can biliwn o bunnau ar adnewyddu Palas Buckingham. Hanner cant yn unig yn gwrthwynebu. Gyda degau, os nad cannoedd o bobl ym mhob etholaeth yn dioddef effeithiau 'treth llofftydd', cwtogi budd-daliadau, diweithdra, digartrefedd a dibynniaeth ar fanciau bwyd, sut gall y pedwar cant gyfiawnhau iddynt y fath wariant?

- Llywodraeth Lafur Cymru yn gwrthod cais i ddiogelu enwau Cymraeg hanesyddol, er fod Plaid Cymru (a ddaeth a'r cais gerbron), y Toriaid a hyd yn oed UKIP, yn gefnogol. Sut gall Llafur Cymru honni eu bod am weld miliwn o siaradwyr Cymraeg tra'n gwrthod gwarchod enwau'r union iaith honno?

- Plaid Genedlaethol yr Alban yn galw am refferendwm arall. Y Prif Weinidog yn gwrthod, ac yn cyhuddo'r blaid (a Phlaid Cymru) o fod yn "obsessive and divisive". Dau air sy'n disgrifio polisi ei llywodraeth hi i'r dim ynglyn a gadael Ewrop.

- Saith niwrnod wedi Cyllideb y Gwanwyn, y Canghellor yn gorfod diddymu ei gynllun i godi £2 biliwn drwy gynyddu cyfraniadau Yswiriant Cenedlaethol i'r Hunan-gyflogedig. Y Gweinidog a Gofal am Brexit, David Davis yn cyfaddef nad oes cynllun economaidd wedi ei baratoi pe na bai Prydain yn cael cytundeb masnachu boddhaol gyda'r Gymuned Ewropeaidd. Y math hwn o gynllunio ariannol sy'n siwr o roi sicrwydd a hyder am ddyfodol llewyrchus.

- Mae'n ymddangos fod mesurau caeth y cyn-Ganghellor George Osborne yn brathu, ac wedi ei orfodi i gymryd swydd rhan amser ychwanegol i gadw dau ben llinyn ynghyd. Bellach mae'n gorfod crafu byw ar gyflogau blynyddol o £74,000 fel AS, £650,000 fel ymgynghorydd ariannol i gwmni Blackrock, tua £780,000 fel siaradwr cyhoeddus i'r Washington Speaker Bureau, £120,000 fel aelod o Raglen Kissinger a swm na ddatgelwyd fel Golygydd y London Evening Standard.









**Clwb Bro Bethel** Eto eleni rhoddwyd gwahoddiad i'r aelodau draw i'r Ysgol Gynradd i gyd-ddathlu Dydd Gŵyl Dewi gyda'r Staff a'r disgyblion. Cafwyd perfformiadau da fel arfer gan y disgyblion yn amrywio o eitemau cerddorol, llefaru a cherddorol. O'r disgybl lleiaf i'r hynaf roedd y wên ar wyneb pob un wrth berfformio yn adlewyrchu y balchder amlwg yn eu hysgol a'u bro.

Eto, gwelwyd esiampl wych o'r addysg crwn y mae'r disgyblion yn ei dderbyn. Diolch i bawb a gyfrannodd i'r hyfforddiant. Roedd nifer o'r disgyblion, fel aelodau o Aelwyd Bentref Bethel, yn cystadlu yn Eisteddfod Cylch yr Urdd. Braf cofnodi fod rhai o'r disgyblion drwodd i'r Eisteddfod Sir. Gwledd ar sawl lefel oedd y prynhawn hwn.

## Merched y Wawr Bethel





Croesawyd aelodau'r gangen i Glwb Criced Bangor i ddathlu Gŵyl Dewi eleni.
Cafwyd swper blasus iawn a phawb wedi eu plesio yn arw (rhai yn mwynhau mwy nac un pwdin!!) ac yna gwledd o ganu gan Magi Tudur o Benisarwaen, sy'n ddisgybl yn Ysgol Brynrefail.
Ers iddi fod yn 14 oed mae wedi bod yn cyfansoddi ac yn canu ei chaneuon ei hun. Mae'n dalent heb os nac oni bai a does dim rhyfedd felly iddi dderbyn hoff gitar y diweddar Alun 'Sbardun' Huws o'r enwog grwp Tebot Piws a nifer o grwpiau eraill.
Cafwyd ein gwefreiddio gan ei thalent a'i llais hyfryd a phob lwc iddi yn ei dyfodol. Heb anghofio ei thad a ddaeth a hi atom a chyd gyfelio ar ambell i gân, Diolch dad!
Diolchwyd iddi gan Liz Watkin a oedd wedi ei chlywed ar Noson Lawen ond dyma'r tro cyntaf iddi ei chlywed yn fyw, ac iddi beidio a phoeni os oedd wedi dod a chopi anghywir o'i chân newydd a gorfod dechrau eto, os ydy Adele yn cael gwneud fe gaiff Magi wneud hefyd!

Llongyfarchiadau
i Ffion, merch Anita ar achlysur ei phriodas â Gavin
i Gethin, ŵyr Rita ar dderbyn gradd MA
Roedd dwy o'n haelodau yn methu bod hefo ni. Glenys Griffith sydd wedi bod yn wael yn ddiweddar ond yn gwella yn raddol, a Liz Evans gafodd ddamwain yn ei chartref, hithau'n gwella hefyd.
Anfonodd Liz wobr i'r raffl a chofion at bawb, diolch iddi.
Edrychwn ymlaen i'ch gweld yn ôl hefo ni'n fuan.
Glesni, ŵyres Eirlys Sharpe wedi bod yn yr ysbyty a hithau'n gwella hefyd.
Cydymdeimlwyd hefo Anne Elis sydd wedi cael profedigaeth eto.
Enillwyr y raffl oedd Mary Evans, Gwyneth Williams, Mary Wyn a Sharon
Os am weld mwy o luniau'r noson ewch i'r wefan mywbethel.org

# *Parhad* BETHEL



**Te Gŵyl Ddewi** Diolch hefyd i'r criw ffyddlon o ferched drefnodd De Gŵyl Ddewi yn y Neuadd er lles coffrau'r Neuadd Goffa. Gwnaed elw o £467 ar y diwrnod. Cafwyd cefnogaeth dda gyda chanmoliaeth fawr i'r cawl, lobsgows a'r teisennau amrywiol. Gwell criw Mary Evans na chriw Mary Berry!



**Gŵyl Fwyd Bethel** Croesawyd dros ugain o stondinwyr Bwyd a Chrefftau lleol i'r Ŵyl eleni, a gynhaliwyd mewn pabell ar dir y Neuadd Goffa. Er y tywydd gerwin cafwyd cefnogaeth dda gan yr ardalwyr. Roedd amrywiol weithgareddau wedi eu trefnu yn ystod y dydd. Roedd cynnyrch y stondinwyr yn amrywio o fwyd i goffi a chrefftau llaw, boed ddefnydd neu bren.

Seren yr Ŵyl Fwyd yn y pnawn oedd y cogydd amryddawn, Matt Guy, sydd â'i wreiddiau yn Neiniolen. Dangosodd ei sgiliau drwy goginio eog, golwyth (steak) ac, wrth gwrs, bwdin blasus. I'r rhai gafodd flasu cafwyd tystiolaeth o allu Matt.

Diolch i bawb a gyfrannodd i lwyddiant yr Ŵyl, a bydd yr elw yn mynd at goffrau cynnal Gŵyl Bethel 2017.

**Ysgol Sul y Cysegr** Plant yr Ysgol Sul oedd yng ngofal y Gwasanaeth yn ddiweddar gyda'r Pum Synnwyr yn thema. Cafwyd cyfraniad gan bob dosbarth yn eu tro yn sôn am TEIMLO, BLASU, AROGLI, CLYWED, a GWELD. I orffen bu i'r plant gyd-ganu 'Mae'r bysedd sydd yn teimlo yn rhodd gan Dduw'. Ar y diwedd roedd panad a bisgedi i bawb a chyfle i gymdeithasu.

**Diolch** Dymuna Glenys, Llwyn Eithin, ddiolch yn ddiffuant i'w chyfeillion am yr holl gymwynasau, galwadau ffôn a blodau a dderbyniodd tra yn gaeth i'r tŷ yn ddiweddar.

Diolch Wedi sawl blwyddyn o wasanaeth fel un o ddosbarthwyr yr Eco ym Methel, mae Glenys Griffith, Llwyn Eithin, yn 'ymddeol'. Diolchwn iddi am ei chymwynasau parod dros sawl blwyddyn.

**Cefnogi'r Achos** Dymuna Iolo ac Erin Roberts, Cae Clyd, ddiolch i nifer am eu nawdd parod dros fis Chwefror. Am fis cyfan roedd y ddau yn ymwrthod â bwyta siwgr mewn unrhyw fwydydd, byr-brydau na diodydd. Drwy'r ymdrech yma llwyddwyd i godi £300 at ymgyrch Cancer Research U.K. Tipyn o gamp gan ddau sydd yn cyfaddef i fod yn berchnogion 'dant melys' iawn. Oes eraill am efelychu ymdrech y ddau?

**O'r Cyngor Cymuned** Fe sylwch, fel rhan o'u cyfrifoldeb, fod y Cyngor Cymuned bellach wedi gosod seddau tu fewn i gysgodfannau bws y pentref – yn wir wedi talu unwaith eto am ail osod un ohonynt. Dros y blynyddoedd mae'r Cyngor wedi gwario miloedd yn ail-drwsio y cysgodfannau hyn. Diolch bellach eu bod yn cael mwy o barch.

Derbyniwyd cais cynllunio i droi yr hen Eglwys/ Cartref Sant Teilo yn dŷ annedd.

Ynglŷn â chais arfaethedig i godi 4 tŷ ar dir ger Bron Gwynedd, mae pwyllgor cynllunio y Cyngor Sir wedi cyfarfod yn Nolgellau. Gyda'r Cyngor Cymuned, y Cynghorydd Sir a nifer o'r pentrefwyr yn gwrthwynebu'r cais, penderfyniad y pwyllgor oedd trefnu Ymweliad Safle ar ddydd Llun, Ebrill 3ydd. Edrychwn ymlaen i'w penderfyniad.

Cafwyd gwrthwynebiad chwyrn i gais cwmni Horizon a'r Ymchwilydd i ddiarddel y cymal sydd yn ymwneud ac 'effaith ar yr iaith Gymraeg' yn sgil datblygiadau o dan Cynllun Cynllunio Unedig Gwynedd a Môn. Teimlwyd y buasai diddymu'r cymal yma yn tanseilio un o brif gonglfeini polisi iaith cynghorau Gwynedd a Môn.

**Dymuniadau Da** Dymunwn y gorau i Elisabeth Evans, Blaen Parc; Eunice Roberts, Stad y Rhos, a Nan Owen, Berwyn, wedi eu cyfnodau yn yr ysbyty yn ddiweddar.

**Eisiau Atgoffa** Yn y pwyllgor olaf o'r Eco fe'n atgoffwyd am y cynnydd sylweddol sydd yn y niferoedd sy'n ymweld yn fisol â gwefan yr Eco. Cofiwch fod pob un o gyn-rifynnau y papur i'w cael yno. Hefyd cannoedd o ddarluniau. Beth am ymweld â hi, a chyd-fyw/ cyd-gofio ambell achlysur a wyneb o'r gorffennol.

**Apêl** Yn dechnegol, newyddion Ward Bethel ddylai fod uwchben y golofn hon. Felly, dylai gynnwys unrhyw newyddion o Seion a Llanddeiniolen hefyd. Os oes unrhyw newyddion, yna danfonwch neu gysylltwch â mi drwy ffôn neu e-bost.

**Talu** Yn draddodiadol dyma'r mis y bydd y mwyafrif o'n darllenwyr yn talu eu tanysgrifiad blynyddol. I'ch atgoffa, mae'r fargen yn dal yn £7 y flwyddyn(11 rhifyn). Diolch am eich cefnogaeth.

**Cymdeithas Lenyddol** Y cerddor, arweinydd a beirniad eisteddfodol, Trystan Lewis o Ddeganwy, oedd y siaradwr gwadd mis Mawrth. Cymerodd fel testun 'Y Tonic o'r Sol-ffa'. Yn y ddarlith arbennig ei choethder a manylder – yn ddi-nodiadau – croniclwyd nid yn unig ffurfio a datblygu'r dull sol-ffa o addysgu cantorion ond hefyd dylanwad y sol-ffa dros y blynyddoedd.

John Curwen, mab i weinidog o Swydd Efrog, berffeithiodd y dull. Ei brif nod oedd denu'r llif o weithwyr diwydiannol ei fro i wneud gwell defnydd o'u hamdden, yn hytrach na'r orddibyniaeth ar y dafarn. Cymedroldeb nid llwyrymwrthod oedd ei neges. Roedd hefyd yn ddull nid yn unig i feithrin doniau canu ond hefyd gwella llythrennedd. Rhwng 1830 a 1850 gwelwyd twf rhyfeddol mewn diddordeb a gwelir ffurfio sawl côr 'amaturaidd'. Roedd pobl yn rhyfeddu ar allu y corau 'amatur' yma i berfformio rhai o weithiau clasurol y meistri.

I ateb y galw sefydlodd mab John Curwen wasg i ledaenu'r deunydd dysgu i feistroli'r sol-ffa. Yn 1863 sefydlwyd Coleg Tonic Sol-ffa oedd yn cyhoeddi papurau arholiad.

Yna trwy weledigaeth Eleazar Roberts (o Bwllheli tan yn 5 oed) ond un o Gymry Lerpwl cyflwynwyd y grefft i'r Cymry Cymraeg. Cyfieithwyd llyfr Curwen a'i werthu am swllt y copi. Ymledodd y grefft fel tân drwy Gymru. Sefydlwyd canolfannau dosbarthiadol i hybu'r grefft. Ffurfiwyd corau di-ri. Un o'r rhai a yrrodd y diddordeb ymlaen oedd Ieuan Gwyllt a ddaeth, ymhen amser, yn weinidog ar Gapel Coch, Llanberis ac a gladdwyd ym mynwent Caeathro.

Yna cam pwysig arall yn 1891 wrth i Huw Davies(Pencerdd Maelor) addasu'r dull fel y gellid ei ddehongli gan offerynwyr. Dyma ddechrau Oes Aur y canu corawl. Corau o 300 o leisiau yn cystadlu yn y Genedlaethol. Capeli yn perfformio oratorios. Erbyn heddiw ychydig sy'n darllen cerddoriaeth.

Gwelai'r diweddar Hywel Teifii Edwards y dirywiad yn dechrau gyda colli dylanwad y capeli yn enwedig yng nghymoedd Cymreig y De fel yr Aman a'r Ogwr. Colli capel, colli'r Gymraeg, dirywiad yn safon y canu. Diddorol sylwi yn ein hardaloedd Cymreigiaf ni yn lleol mai prin iawn yw corau plant bellach. Eto, rydym yn ymwybodol am ddoniau unigol sawl plentyn ar y gylchdaith eisteddfodol.

Cafwyd tonic go iawn yn sgwrs gelfydd Trystan, a diolch iddo am agor drws a chlust y cof i lawer ohonom o'n dyddiau Ysgol ac Ysgol Sul yn ceisio meistroli a dilyn bys yr athrawes ar hyd y 'modulator'. Pawb yn barod; d,m,s,d,l,t….

## Cartref Newydd i Ffermwyr Ifanc Eryri

Mae Ffermwyr Ifanc Eryri bellach wedi symud eu swyddfa o Barc Glynllifon i dref Caernarfon. Bu Glynllifon yn gartref hapus a phrysur i swyddfa Ffermwyr Ifanc Eryri am flynyddoedd lawer ond daeth yn bryd symud ymlaen i swyddfa arall.

“Profiad rhyfedd oedd cloi drws y swyddfa yng Nglynllifon am y tro olaf” meddai Eleri Evans, Trefnydd Ffermwyr Ifanc Eryri. “Bu swyddfa’r mudiad yng Nglynllifon ers blynyddoedd” meddai “ond mae’r swyddfeydd newydd yn cynnig mwy o le a bydd hynny, wrth gwrs, yn hwyluso llawer ar ein gwaith”.

Cafodd Ffermwyr Ifanc Eryri gynnig swyddfeydd gan NFU Canolbarth Gwynedd yn eu hadeilad yn stryd Bangor yng Nghaernarfon a bellach maent wedi ymgartrefu yno. Y cyfeiriad newydd yw: Ffermwyr Ifanc Eryri, Adeilad NFU, 19 Stryd Bangor, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1AT a’r rhif ffôn newydd yw (01286) 677513.

## Bws Chwarel

A oes rhywyn all roi goleuni ar y canlynol a oedd ymysg papurau fy mam, sef Jane Catherine Hughes (gynt Jones), Deiniolen, ond yn wreiddiol o Benisar'waun. Yn anffodus nid yw'r ffugenw ynghlwm na chwaith y gerdd gyfan - ond dyma beth sydd gennyf:

Bws y Chwarel - Hen Gerdd Ddigrif
Derbyniais y gerdd ddigrif isod oddi wrth gyfaill y dydd o'r blaen. Gresyn iddi fod yn guddiedig mor hir. Nid oes ond ffugenw wrthi
Bws y Chwarel yn gadael Penisar'waun yn y Flwyddyn 1929
(Tafodiaeth Arfon)

Er mwyn i chi wybod, y Cymry ar draen,
Prif dref Llanddeiniolen yw Penisarwaen,
A'i phobol yn rhif rhai miloedd, y sydd,
A'i thwrw a'i masnach sy'n fwy na Chaerdydd.

Mae yma rai cannoedd o siopau a thai
Hotels a phlasau, sy'n llawn yn mis Mai,
O Saeson, Ysgotiaid a Gwyddel a Ffrens,
A llawer o ladis heb lawer o sens.

O'r holl adeiladau rhaid dweud mai'r Siop Gron
Yw'r fangre brysuraf a welwyd o'r bron;
Cans yma'r moduron sy'n gadael am saith
Gan gludo'r chwarelwyr i fyny i'r gwaith.

O'r helynt a'r bloeddio, a canu corn chwyth,
A llawer hen dderyn heb droi yn ei nyth;
"Lle mae'r breuddwydwyr" medd Driver Jac Huws,
"Dyw gwaeddi yn ------ y meirw'n ddim iws"

Yn awr fe ddaw fflamau a mwg o'r holl gyrn,
A swn y meginau yn chwythu yn chwyrn;
Pob tecell a phadell yn canu drwy'r lle,
A'r ieir a'r ceiliogod yn bloeddio hwre!

John Evans, conductor, edrychai yn syn,

(a dyma lle mae'n gorffen - oes na rywun yn gwybod y gweddill?)

Huw Price Hughes.

### Gair gan y Golygydd

Y mis hwn mae’r “Eco” yn dychwelyd i fod yn rhifyn 32 tudalen. Mae hyn yn rhoi cyfle i gynnwys nifer o erthyglau sydd yn anorfod wedi eu cadw’n ôl dros y misoedd diwethaf. Dros y gaeaf bu digon o ddeunydd i lenwi 32 tudalen, ond roedd costau’n cyfyngu ar y maint. Dyna un rheswm pam y bu’n rhaid hepgor adroddiadau’r cynghorau lleol. Bu galw am gael eu cynnwys, a gobeithio y gwelir eu cynnwys unwaith yn rhagor. Mae’r sefyllfa ariannol yn well erbyn hyn, a gobeithio y pery felly.

Mae llawer o incwm yr “Eco” yn dibynnu ar hysbysebwyr, a diolchwn i’r rhai sydd wedi bod yn gefnogol i’r papur ar hyd y blynyddoedd. Os oes eraill am fanteisio ar gylchrediad yr “Eco” o fewn y fro, yna cysylltwch â’r Trefnydd Hysbysebion.

Ein diolch hefyd am y rhoddion i gronfa’r “Eco”, boed yn unigolion neu’n Gynghorau Cymuned. Mae rheidrwydd arnom i ddangos cefnogaeth ariannol Llywodraeth Cymru. Ond mae’r diolch yn bennaf i chi, ddarllenwyr yr “Eco” am ei brynu’n rheolaidd o fis i fis. Gair bach felly i’ch atgoffa y bydd y dosbarthwyr yn casglu tâl am yr unarddeg rhifyn nesaf. 70 ceiniog yw pob rhifyn – rhatach na’r Daily Post am tua’r un faint o dudalennau – ond os talwch £7 ymlaen llaw, cewch un rhifyn am ddim. Bargen!

Etholiadau Mai.

Mae croeso i ymgeiswyr yn etholiadau Cyngor Gwynedd fis Mai anfon datganiadau (+llun) i’w cynnwys yn y rhifyn a ddaw o’r wasg ar yr 28ain o Ebrill.

## Cyflwyniad i Dechnoleg Fodern

Yn ystod y misoedd nesaf fe fydd cyfres o gyrsiau ar dechnoleg yn cael eu cynnal yn y Sefydliad Coffa, Llanrug.
Bydd rhain yn cynnwys y defnydd o ffonau symudol, tabledi, ipads a gliniaduron a chyfrifiaduron PC.
Chi fydd yn penderfynu ar gynnwys y cyrsiau yma.
Yn y cyfarfod cyntaf fe gewch chi ddweud be da chi ei angen ac fe gewch weld yn uniongyrchol ar wahanol offer a chael syniadau ar beth sydd yn bosib.
Felly dewch yn llu i’r Sefydliad Coffa ar ddydd Mawrth yr 11eg o Ebrill. Bydd un cyfarfod am 1 yn y pnawn ac un arall am 7 yr hwyr.
Yna fe fydd y cyfarfodydd wythnosol bob dydd Mercher am 1pm ac un arall am 7pm.
Mae yna gysylltiad gwe yn y Sefydliad.
Os am fwy o fanylion cysylltwch a Robin Williams –
e-bost robinwilliams.llanrug.gmail.com neu ar y ffôn : 075846 13560
Ariannwyd gan y Co-Op, Llanrug

**DIM TERMAU GWIRION – DIM OND GWYBODAETH SYML, PLAEN**



## Her y Golygydd.



I ddathlu ei benblwydd yn 70 oed bu'r Golygydd yn beicio yn y Ganolfan Tennis, Caernarfon am 70 milltir, a chodi arian i Ysgol Pendalar yr un pryd. Cwblhawyd y daith mewn 3 awr 58 munud a 28 eiliad. Fel roedd yr "Eco" yn mynd i'r wasg, roedd £1,000 wedi ei gyfrannu i'r gronfa. Dymuna Dafydd ddiolch i staff y Ganolfan am gael defnyddio'u hadnoddau a rhoi o'u hamser i gefnogi'r fenter; i staff a disgyblion Ysgol Pendalar am ymweld; i'w deulu, ffrindiau, cymdogion a phawb arall am gyfrannu mor hael. Anrheg penblwydd gwerth chweil!

## W.
## (300 mlynedd ei eni!)

Ei Awen fu'n foddion enaid cenedl
droi'r canu i danbaid
o weld Ne' yn lle'r holl laid
yn agor o'r Bendigaid.

## Y Groglith

Drain y goron, archollion hyll-ochain
o achos y ffrewyll,
yna gweld yng ngwaed y gwyll
Ei orchest ar groes erchyll.

## Y Merched ar fore'r Pasg

Eu hactau'n llawn o'r gwacter, - y maen
mawr wedi mynd bellter,
'r amdo 'mhlyg gorthrymder
a bloesg, geiriau garddwr blêr.

*Norman Closs*

## CAEATHRO

Rhiannon Roberts, Cefn Rhos Isaf, Penrhos. rhiannonmai@btinternet.com

**Clwb Merched** Cwmni cydweithredol wedi ei sefydlu yn 2011 yw Cwrw Llŷn,sydd yn rhoi pwyslais ar dreftadaeth Gymreig ac ar gyflogi pobl lleol. Buom ar ymweliad â'r adeilad newydd yn Nefyn ar nos Wener, Chwefror 24ain, a chafwyd noson ddifyr yn cael hanes hen fragdai Llŷn ac Eifionydd, gweld ffilm o'r bragdy a chael blasu, i gyd o dan arweiniad medrus dau o'r cyfarwyddwyr, sef Peredur a Nick. Mae tystiolaeth bod bragu o dan amodau cyntefig yn Neigwl cyn belled yn ôl â'r Oes Efydd. Difyr oedd clywed am fanteision dŵr meddal Cwmstradllyn, y tymheredd cyson o fewn y bragdy newydd a'r defnydd a wneir o hydromedr i arafu y brâg ar y cryfder iawn. Mae cwrw Seithenyn, Enlli, Cochyn a Glyndŵr yn boblogaidd iawn bellach ac mae cwrw dan yr enw Mimosa ar gyfer allforio i Batagonia. Diddorol hefyd oedd clywed am frwydr y cwmni gyda Cynulliad Cymru, San Steffan a'r Uned Ewropeaidd i hawlio marcio gwydrau yn gywir gyda PEINT yn hytrach na PINT,ac enillwyd y frwydr!
Mis Mawrth byddwn yn ymweld â Galeri,Caernarfon i weld perfformio Yfory gan Theatr Bara Caws.



*Merched Caeathro ar ymweliad â bragdy Cwrw Llŷn.*

**Gwasanaethau'r Capel**
Ebrill 2ail, am 2.00 gwasanaethir gan Y Parch .Marcus Wyn Robinson.
Ebrill 19eg, am 2.00 cynhelir Oedfa'r Pasg dan ofal Y Parch. Marcus Wyn Robinson. Yn ystod y gwasanaeth gweinyddir y Cymun.
**Profedigaeth** Ar Chwefror 24ain bu farw Mrs Ellen Burke, 4,Caeathro Bach, yn 90 oed, a chynhaliwyd yr angladd yng Nghapel Caeathro ar ddydd Sadwrn, Mawrth 4ydd, dan ofal y Gweinidog. Aelod o un o hen deuluoedd Caeathro oedd Ellen, yn chwaer i'r ddiweddar Mair ac Alwen. Anfonwn gydymdeimlad dwys at Sulwen, ei merch, a'r teulu oll yn eu colled.

**Llongyfarchiadau** Dymuniadau gorau i'r Parch Eric a Beryl Roberts, Erw Wen, ar ddathlu eu Priodas Aur yn ddiweddar; i Glyn Price a Mari Roberts (Cefn Rhos Isaf) ar eu dyweddiad ac i Mr T. Elwyn Griffith (Erw Wen gynt) ar ddathlu ei ben-blwydd yn 99 oed ym Mhlas Garnedd, Llanfairpwll.
Pob hwyl i chi i gyd ar y dathlu.
**Tynfa misol Caeathro** 1af £40: Evina Hughes, 7 Erw Wen (95); 2il £25: Joe Roberts, 5 Erw Wen (56); 3ydd £15: Dilys Griffiths, Delfryn (31); 4ydd £5: Eric ac Eluned Roberts, Graig Lwyd (47).

# TUDALEN YR IFANC

## Cymraeg ym Mro'r Eco: Cyfrifoldeb yr Ifanc

Yng nghyfrifiad 2011 Llanrug oedd â'r canran uchaf o siaradwyr Cymraeg. Ar y funud, mae'n teimlo fel bod y Gymraeg mewn sefyllfa gyfforddus yn ein bro, ond prysur leihau fydd y canrannau os na wnawn ni godi oddi ar ein penolau. Mewn cyfarfod diddorol wedi ei drefnu gan Hunaniaith – Menter Iaith Gwynedd – yn ddiweddar roedd trafod a rhannu syniadau am sut i drefnu digwyddiadau Cymraeg. Roedd hi'n amlwg taw'r cenedlaethau hon yn ein cymdeithas oedd yn bennaf yn arwain ar y digwyddiadau hyn. Felly, er mwyn cadw'r Gymraeg yn ifanc mae'n rhaid i ni, bobl ifanc yr ardal, hefyd gymryd cyfrifoldeb a helpu i drefnu digwyddiadau.

Beth am ymuno â phwyllgor eich Eisteddfod bentref? Neu wirfoddoli mewn ffair grefftau? Mae gennym ni, bobl ifanc, sgiliau allweddol a hynod ddefnyddiol sydd, fel y gallu i greu gwefannau, gwybodaeth o'r cyfryngau cymdeithasol a chysylltiadau defnyddiol fyddai'n help i drefnu unrhyw achlysur.

Os oes criw ohonoch gyda diddordeb mewn maes penodol – o gerddoriaeth i gemau cyfrifiadurol – beth am fynd amdani a threfnu digwyddiad Cymraeg? A'I chynnal mewn lleoliad yn un o'n pentrefi yn lle heidio i Gaernarfon neu Bangor? Mae sawl lleoliad sy'n rhentu ystafelloedd i'r cyhoedd – o'r neuaddau coffa, festri capel neu westai'r fro – edrychwch yn agosach at adref.

Mae'n amser i chi, bobl ifanc bro'r Eco, i godi llais a threfnu digwyddiadau cyffrous er mwyn sicrhau dyfodol i'r Gymraeg fel iaith gymdeithasol, anffurfiol a naturiol y tu allan i ffiniau'r ysgol.

## Cerddorion lleol ac etifedd Sbardun

Wedi i'r cerddor Alun 'Sbardun' Huws ein gadael yn 2015 gadawodd etifedd go wahanol - hoffai y byddai'i offerynnau lu yn cael ei dosbarthu ymysg cerddorion addawol o Gymru. O'r 6 artist i dderbyn offerynnau, mae 3 ohonynt o fro'r Eco: Ynyr ac Eurig o'r band Brigyn sy'n wreiddiol o Benisarwaun, y canwr gwerin o Fethel, Gwilym Bowen Rhys, a'r gantores ifanc o Benisarwaun, Magi Tudur. Aethom i ddarganfod mwy am yr etifedd hynod gan Magi;

"Dwi'n perfformio ers tua 3 blynedd wan, ers dwi'n ryw 14/15 oed. Mi wnes i 'sgwennu fy nghân gyntaf pan oni'n 14 oed - sef 'Rhywbryd' a gafodd ei dewis fel trac yr wythnos ar BBC Radio Cymru, ac mae hi hefyd ar fy EP 'Gan Bwyll'.


Dwi 'di bod yn ofnadwy o lwcus i gael etifeddu un o offerynnau'r diweddar Alun Sbardun Huws. Roedd o wedi dweud yn ei ewyllys ei fod eisiau'r offerynnau gael eu rhannu i gerddorion Cymraeg gwahanol e.e.. Gai Toms, Gwilym Bowen Rhys, Ynyr ac Eurig Brigyn a Dewi Pws. A chefais i'r gitâr acwstig anhygoel 'Gibson J45'. Cyn hyn, doedd gen i ddim gitâr fy hun, roeddwn wastad wedi bod yn dwyn un o rhai dad!

Ers ei chael hi, dwi wedi dechrau cyfansoddi'n amlach, a'n mwynhau cael chwarae hen gitâr (arbennig iawn) un o arwyr Cymru!

Mi wnes i sesiwn ar raglen Lisa Gwilym yn ddiweddar fel rhan o gyfres 'Sesiynau Sbardun'. Mae bron pawb sydd wedi derbyn un o offerynnau Sbardun wedi gwneud un o'r sesiynau yma. Roeddwn i'n gorfod cyfansoddi cân newydd ar y Gibson J45 (sef 'Jim'), canu un o ganeuon Sbardun (wnes i ganu Dyddia') a chanu un o fy nghaneuon gwreiddiol parod i (Lôn Bost.) Roedd y sesiwn werth chweil achos mi wnaeth o fy annog i ysgrifennu cân roeddwn wedi bod eisiau ei 'sgwennu ers oes- 'Jim'.

Dwi heb wneud llawer o gigs yn ddiweddar oherwydd pwysau lefel A, ac yn ei chymryd hi'n araf iawn. Dwi wedi gwneud ambell i gig i Merched y Wawr, a dwi'n gwneud gig ar faes Eisteddfod yr Urdd ym mis Mai ar y dydd Gwener, gan (wrth gwrs) ddefnyddio'r Gibson J45 - ac yn edrych ymlaen yn arw."

Mae modd clywed 'Sesiynau Sbardun' Magi Tudur, Gwilym Bowen Rhys a Brigyn ar wefan Radio Cymru.


GWAITH COFFAOL
LLANRUG
Ffôn Gwaith
(01286) 672898
Cartref
(01286) 871833
Symudol 07778 127394
Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Dylan Griffith
Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol
TROS-Y-WAEN PENISARWAUN
Gwaith Cerrig Beddi
Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaethy Yr Holl Ardal
Ffoniwch DYLAN ar 01286 871833 (SYMUDOL- 07778127394)

Hefyd

CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA
Cyrhaeddwch Mewn Steil- Mewn Cerbyd Rolls Royce
AR GYFER PRIODASAU, PENBLWYDDI ac ACHLYSURON ARBENNIG ERAILL

# APÊL CYMORTH CRISTNOGOL UNDEB BEDYDDWYR CYMRU

## *Gwella Gwasanaethau Iechyd Mamol yng ngogledd Ghana £67,077.73*

Llongyfarchiadau gwresog iawn i eglwysi Undeb Bedyddwyr Cymru am gasglu £67,077.73 yn ystod eu Hapêl 2016 tuag at brosiect Cymorth Cristnogol yng ngwlad Ghana. Codwyd £27,077.73 yn fwy na'r nod gwreiddiol.

Canolbwyntiwyd yr apêl ar wella gwasanaethau iechyd mamol yn rhannau gogleddol y wlad. Tra bod Ghana wedi mwynhau llwyddiant economaidd cymharol, mae'r rhan ogleddol yn parhau i ddioddef lefelau uchel o dlodi a newyn, yn enwedig mewn iechyd mamol. Mae partner Cymorth Cristnogol yn Ghana, sef SEND Ghana, wedi gweithio gyda chymunedau i hyfforddi, calonogi ac addysgu'r boblogaeth o fanteision y gwasanaeth iechyd mamol sydd ar gael iddynt, a'u galluogi i sicrhau mwy o gymorth gan ei llywodraeth.

Mae effaith y fath waith yn galonogol iawn gan fod llawer mwy o famau beichiog yn ymweld â'r clinigau fisoedd ynghynt nag yn y gorffennol. Yn ogystal, maent yn derbyn cynghorion a meddygaeth fodern ac yn penderfynu rhoi genedigaethau yn y clinig ym mhresenoldeb bydwragedd a hyfforddwyd, yn hytrach nag yn eu cartrefi eu hunain. Golyga hyn eu bod yn derbyn cefnogaeth gyson drwy gyfnod eu beichiogrwydd ac yn medru cael cymorth ychwanegol pe cyfyd problemau.

Y nod a osodwyd i'r apêl oedd £40,000, ond y mae Bedyddwyr Cymru wedi dangos haelioni enfawr trwy gasglu llawer mwy na'r ffigwr hwn. Bydd yr arian ychwanegol yn fodd i brynu adnoddau ar gyfer rhai o'r clinigau iechyd mamol.

Dywedodd y Parchedig Denzil John, Cadeirydd Pwyllgor Eglwys a Chyfrifoldeb Cymdeithasol, "Rwy'n hynod falch fod cymaint o'n heglwysi wedi ymateb mor gadarnhaol i'r apêl, sy'n profi eu bod yn barod iawn i ymestyn allan at y rhai sy'n llai ffodus na ni. Diolchwn bod bywydau llawer o famau a phlant yn mynd i'w harbed drwy'r Apêl hon."

Ychwanegodd y Parchedig Judith Morris, Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb Bedyddwyr Cymru, "Gan fod y prosiect hwn yn un a oedd yn derbyn cefnogaeth yr Undeb Ewropeaidd a'r nod ariannol bellach wedi'i gyrraedd, mae hyn wedi helpu datgloi




€500,000 yn ychwanegol tuag at y gwaith angenrheidiol o achub bywydau yn Ghana."

Wrth dderbyn y siec ar ran Cymorth Cristnogol, diolchodd y Parchedig Tom T Defis am ymdrech hael eglwysi'r Bedyddwyr, gan nodi bod yr arian yn mynd i wneud cymaint o wahaniaeth i'r mamau a'u plant yn Ghana. Diolchodd hefyd am fod yr ymateb i'r apêl yn tanlinellu perchnogaeth Undeb Bedyddwyr Cymru, ynghyd a'r enwadau eraill, o waith Cymorth Cristnogol.

Ychwanegodd Huw Thomas, Pennaeth Cymorth Cristnogol yng Nghymru ei ddiolch a'i longyfarchiadau am yr ymdrech enfawr hon, a chyfeiriodd at neges a dderbyniwyd oddi wrth Ernest Okyere, Rheolwr Gwlad i Cymorth Cristnogol yn Ghana, a ddywedodd, "Yr ydym yn teimlo'n ostyngedig iawn bod UBC wedi dewis cefnog'r prosiect hwn a mi roedd yn hyfrydwch cael croesawu ymwelwyr o Gymru llynedd. Ar ran pobl Ghana, plis derbyniwch ein diolchgarwch a chadarnhad bod y prosiect hwn yn helpu i achub bywydau yn ein gwlad ni."

ECO'r Wyddfa

## Cefnogwch ein hysbysebwyr






BYSUS RHIWLAS
BYSUS BACH A MAWR
ar gael ar gyfer pob math o LOGI PREIFAT
Nosweithiau allan, Partion, Tripiau ac ati.
Am wasanaeth personol a thelerau rhesymol-
Ffoniwch (01248) 361044



D. P. OWENS RHIWLAS



www.fframia.com

FFRAMIA
Parc Padarn Llanberis
(01286) 870922
Gwasanaeth FFRAMIO LLUNIAU
DEWIS EANG O LUNIAU YN YR ORIEL AC AR Y WEFAN
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwy

CHWILOTA
chwilota.wordpress.com

# Un o adeiladwyr Coed y Ddôl

Ddeufis yn ôl soniais am drafferthion diffyg carthffosiaeth yn ardal Coed y Ddôl, ac mai un o'r adeiladwyr oedd yn bryderus iawn ynglŷn â hynny oedd D.W.Roberts. Gwn bellach mai David Wilson Roberts oedd y gŵr hwn, yr adeiladwr a fu'n gyfrifol am y mwyafrif o'r strydoedd ar dir Tlodion Rhuthun. Ef hefyd fu'n gyfrifol am gynllunio ac arolygu gwaith adeiladu capel Gorffwysfa. Yn ôl cofnodion y Methodistiaid (sy'n cael eu dyfynnu yn Hanes Methodistiaeth Arfon), dechreuwyd adeiladu'r capel ar 11eg o Fai 1866, a'i orffen ar yr 11eg o Orffennaf 1867. Dywedir hefyd fod gan D.Wilson Roberts brydles ar y tir (sef tir Tlodion Rhuthun) am 75 mlynedd, a bod 62 mlynedd yn weddill "pan godwyd y capel ar gongl heol Goodman, heol newydd y pryd hwnnw." Gwelir felly fod y brydles yn dyddio o 1854, ond doedd D.Wilson Roberts ddim yn byw yn Llanberis bryd hynny!

Brodor o Nefyn oedd yr adeiladwr, ac mewn rhai adroddiadau fe'i disgrifir fel aelod o "deulu niferus y Wilsoniaid, Nefyn." Mae yntau, ym mhob Cyfrifiad yn cadarnhau mai genedigol o Nefyn ydoedd. Ond er iddo dderbyn prydles ar dir Tlodion Rhuthun yn 1854, roedd yn parhau i fyw yn Well Street, Nefyn yn 1861. Mae'n bosib iddo ef a'i deulu symud i'r ardal yn fuan wedyn, oherwydd yn Ionawr 1862 mae'n cael ei anrhegu gan ei ddosbarth Ysgol Sul yng Nghapel Isa, Nefyn, sy'n awgrymu ei fod yn ymadael â'r ardal. O bosib fod amgylchiadau personol yn ystod 1861 wedi ei ysgogi i symud hefyd. Roedd yn amlwg yn ddyn cyhoeddus ym mywyd cymdeithasol Nefyn. Roedd yn athro Ysgol Sul, yn ysgrifennydd Cymdeithas Gyfeillgar Nefyn, yn gasglwr Treth y Tlodion ac yn Asssistant Overseer dan arolygaeth Bwrdd Deddf y Tlodion – oll yn swyddi cyfrifol. Ond mae'n amlwg fod rhyw anghydfod yn bodoli, oherwydd daethpwyd ag achos o dwyll ariannol yn ei erbyn gan wardeiniaid eglwys Nefyn, ond ni ddeilliodd dim ohono. Yn wir, daeth D. Wilson Roberts ag achos o enllib yn erbyn Person y Plwyf, y Parch W. Jones, ac ennill iawndal o £50, swm go sylweddol y pryd hwnnw. Daeth ag achos tebyg yn erbyn William Roberts, adeiladydd llongau, ond methais a darganfod cofnod o ganlyniad yr achos hwn. Gall rhywun ddychmygu'r cynnwrf yn Nefyn yn ystod y cyfnod hwn, ac mae'n amlwg fod cryn ddrwg-deimlad rhwng yr eglwyswyr a'r anghydffurfwyr yno! Does ryfedd fod y North Wales Chronicle wedi diweddu un adroddiad drwy ddweud: "Nevin seems to be a nice comfortable place for a peacable Christian family to reside in."

A symudodd un o'r teuluoedd rheini i Goed y Ddôl, o bosib yn fuan wedi 1862. Tua'r flwyddyn honno hefyd y prynwyd Gwesty Dolbadarn gan y Capten Robert Roberts, brawd D. Wilson Roberts, a'i adnewyddu'n gyfangwbl erbyn 1864.

Erbyn Cyfrifiad 1871 mae D. Wilson Roberts yn byw yn 3 Lane Terrace, Coed y Ddôl gyda'i wraig, Jane, a thair o ferched; Margaret, Elisabeth a Jane. Yno y bu am weddill ei oes hyd ei farwolaeth ym mis Chwefror 1904 yn 87 oed. Talu rhent am y tŷ yn Lane Terrace a wnai Wilson Roberts, ond yn 1896 aeth nifer o eiddo yng Nghwm y Glo a Llanberis ar werth, a chynhaliwyd ocsiwn yng Ngwesty Dolbadarn. Bryd hynny, rhent blynyddol 3 Lane Terrace oedd £9-2-0. Prynwyd yr eiddo gan Wilson Roberts am ganpunt. (Roedd Person Nefyn wedi talu am ei hanner iddo!!) Yn yr ocsiwn hon hefyd gwerthwyd wyth o dai yn Field Terrace.

Fel yn ei bentref genedigol, ymdaflodd Wilson Roberts i fywyd cyhoeddus Coed y Ddôl hefyd. Bu'n arolygu adeiladu Capel Gorffwysfa am flwyddyn, ac ef hefyd fu'n gyfrifol am atgyweirio helaeth i Gapel Hebron yn 1872. Does dim sicrwydd pendant a fu'n ymwneud ag adeiladu Capel Preswylfa. Yn y cyfrifiadau mae'n disgrifio'i hun fel 'builder and joiner' – a dyna oedd yn Nefyn hefyd, ac yn amlwg yn berchen tai yno. Mor ddiweddar a 1898 daeth ag achos yn erbyn Owen Hughes, Church Street, Nefyn, am beidio talu rhent.


Prynodd Capten Robert Roberts, Dolbadarn, gwmni'r Llanberis Waterworks, a bu Wilson Roberts yn casglu treth dŵr Coed y Ddol am bymtheng mlynedd. Roedd hefyd yn ymgymerwr angladdau, a chymerodd ran yn helynt y Mesur Claddu yn 1880 ( ond stori arall yw honno). Bu'n 'blismon plant', y bondigrybwyll School Attendance Officer, am gyfnod, ac yr oedd hefyd yn ysgrifennydd Neuadd Gyhoeddus Llanberis, sef y Concert Hall.

Roedd yn dal i weithio yn 1897, ac yntau erbyn hyn tua pedwar ugain mlwydd oed. Ym mis Mawrth y flwyddyn hon cafodd ddamwain tra'n gweithio ar Felin Penllyn ym Mrynrefail, pan ddisgynnodd oddi ar ystol. Yn Nghyfrifiad 1901 mae'n disgrifio'i hun fel 'retired'. Erbyn hyn hefyd, roedd yn ŵr gweddw, a'i ferch, Jane wedi priodi â Griffith David Jones, genedigol o Lanrug, ac yn byw yn 3 Lane Terrace gyda'i thad. Does dim son am y ddwy ferch arall. Mae'n amlwg hefyd fod cysylltiadau teuluol â'r Felinheli a Philadelphia. Nai i Wilson Roberts, mab ei frawd Robert Roberts, Dolbadarn, oedd yr Ellis Griffith a laddwyd yn 1896 yn y ddamwain gyntaf ar Drên yr Wyddfa.

Byddai'n ddiddorol cael gwybod os oes rhai o deulu "Wilsoniaid Nefyn" yn dal yn Llanberis heddiw, ac a oes ganddynt fwy o wybodaeth am yr adeiladwr fu'n gyfrifol am godi tai Coed y Ddôl.

# Hen luniau'r Wyddfa

Mewn ymateb i golofn Dafydd Guto, anfonodd Gareth Pritchard, Llandudno (Tan y Coed gynt) nifer o luniau yn dangos golygfeydd o'r Wyddfa ar wahanol gyfnodau. Y bwriad yw eu dangos yn ystod y misoedd nesaf – y misoedd pan fydd miloedd o ymwelwyr yn troedio'r llwybr o Lanberis i'r copa neu'n cael eu cario ar y tren bach. Dyma ddechrau'r mis hwn gyda defnyddio'r Wyddfa i lunio hysbyseb am flawd. Oes rhywrai o'r darllenwyr efo gwybodaeth am y blawd hwn, a ble roedd cartref y gwneuthurwr?



# Ysgol Brynrefail.

Ddaeth nebi gysylltiad ynglŷn â'r llun a ddangoswyd y mis diwethaf. Gan fod y disgyblion i gyd wedi heneiddio bellach, efallai fod y llun yn rhy fychan i chi fedru craffu arno!! Felly, dyma'i ddangos eto'r mis hwn – yn fwy, gyda'r gobaith y daw ymateb.



Os oes gennych unrhyw ymholiad am agweddau o hanes lleol bro'r "Eco", neu unrhyw hanesyn diddorol am unrhyw gyfnod yn hanes y fro, yna cysylltwch a Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. LL55 4BA (Ffon: 01286 673515)
e-bost: dafydd.wthomas@btinternet.com neu ar safle chwilota.wordpress.com

## Hel Hadau Gwawn

*Annes Glynn*



**Mae llenor lleol, sy'n adnabyddus fel awdur rhyddiaith, ar fin cyhoeddi ei chyfrol gyntaf o farddoniaeth.**

Mae Hel Hadau Gwawn yn gasgliad hyfryd o dros 60 o gerddi caeth a rhydd sy'n archwilio themâu amser a lle. Yn eu plith mae cerddi personol telynegol yn ogystal â dau ddilyniant arobryn a gipiodd Gadeiriau Eisteddfod Môn a Phontrhydfendigaid.

Er yn gyfrol o bwyso a mesur profiadau ac atgofion, mae'r bardd hefyd yn bwrw golwg ar y gymdeithas sydd ohoni ac yn edrych ymlaen yn hyderus drwy lygaid llawn rhyfeddod ei hwyrion a'i hwyresau. Mae dylanwad Ynys Môn a'i magwraeth yno i'w deimlo'n gryf ar y casgliad hwn.

Yn wreiddiol o Frynsiencyn mae Annes wedi ymgartrefu yn Rhiwlas, Bangor, ers rhai blynyddoedd. Enillodd y Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Genedlaethol Casnewydd yn 2004 gyda'i chyfrol o lên meicro Symudliw. Bu'n newyddiadurwraig, yn ymchwilydd radio a theledu, a bu'n gweithio yn y maes cysylltiadau cyhoeddus cyn mynd yn gyfieithydd ar ei liwt ei hun. Bu'n Dderwydd Gweinyddol Gorsedd Beirdd Môn rhwng 2014-2017.

Estynnir gwahoddiad cynnes i bawb i noson lansio Hel Hadau Gwawn yng Nghanolfan Thomas Telford, Ffordd Mona, Porthaethwy ar Ebrill 27 am 7.30. Bydd lluniaeth ysgafn yn ystod y noson ac adloniant gan yr awdures a'r gantores amryddawn, Manon Steffan Ros.

**Hel Hadau Gwawn, Annes Glynn; Cyhoeddiadau Barddas. Pris £7.95**

# LLANRUG Eryl Roberts. 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

**Clwb 200 Clwb Pêl-droed.** £40 - Rhian Ingram, Ysgol Brynrefail (rhif 9); £20 - Arwel Thomas, Arwelfa, Ceunant (rhif 108); £10 - Sioned Mair Jones, Caerdydd (rhif 63).

**Diolch** Dymuna Barbara, Mike a'r teulu ddiolch i deulu, ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli mam, nain, hen nain, chwaer, modryb a ffrind arbennig iawn, sef Kate Owen, 8 Hafan Elan, Llanrug. Diolch hefyd i staff meddygfa Llanrug a Waunfawr, yn enwedig Dr Esyllt Llwyd am ei gofal ohoni, hefyd staff Ward Alaw Ysbyty Gwynedd. Gwerthfawrogwyd cyfraniad y Parchedig Carol Roberts yn y gwasanaeth yn Eglwys St Peris, Nant Peris, ac yn yr Amlosgfa. Diolch arbennig iawn i Mrs Meinir Griffith a'r cwmni, Penisarwaun, am y trefniadau trylwyr dros y cyfnod. Diolch i bawb gyfrannodd yn ariannol er cof am Kate, rhannwyd yr arian rhwng Meddygfa Llanrug a Waunfawr a Ward Alaw.

**Taliad am yr Eco** A fyddwch cystal â chofio fod £7 i' gasglu am yr Eco am y flwyddyn nesaf. Diolch yn fawr.

**Cydymdeimlad** Cofiwn at Kevin a Sharon Owen a'r plant, Bro Rhyddallt, yn eu profedigaeth o golli tad Kevin (Cyril Owen, Llanberis). Cydymdeimlwn yn ddiffuant â chwi.

**Gwellhad Buan** Anfonwn ein dymuniadau gorau am wellhad buan i Lorna Owen, Crawia, sydd wedi derbyn llawdriniaeth mewn ysbyty yn Lerpwl. Mae gartref erbyn hyn – brysiwch wella, Lorna – traed i fyny am ychydig!

**Cofion** hefyd at Eifiona Owen, Glanffynnon, sydd hefyd yn yr ysbyty. Brysiwch chwithau wella hefyd.

**Pen-blwydd Hapus** Dymuniadau da a phen-blwydd hapus iawn yn 92 oed i Mrs Nancy Hughes, Tal y Bont. Mwynhewch y diwrnod.

**Cofion Gorau** at Mrs Catherine Griffith, Tan y Fron, Ffordd Groes, sydd wedi cael damwain. Dymuniadau gorau am wellhad buan i chi.

**Hafan Elan** Llongyfarchiadau mawr i Eilwen Charters, 20 Hafan Elan, ar dderbyn Tystysgrif 'Seren Gymunedol' am fod yn gymdoges dda gan Cartrefi Cymunedol Gwynedd.

**Llongyfarchiadau** i'r band am ddod yn ail yn Adran Un ym Mhencampwriaeth Cymru yn Abertawe. Byddant yn mynd ymlaen i'r gystadleuaeth derfynol Brydeinig gan gynrychioli Cymru yn Cheltenham fis Medi.

**Plaid Cymru,** Enillwyr Clwb Cant Mis Mawrth
1. Arwel Jones, Penisarwaun; 2. Einir Gwyn, Cwmyglo.

**Merched y Wawr** Nos Fawrth, Mawrth 14eg, estynnwyd croeso twymgalon i bawb gan y Llywydd, Margaret Parry. Cychwynnwyd y noson gyda Chân y Mudiad a hynny gydag arddeliad ar noson dathlu Gŵyl ein Nawddsant. Diolch i Megan am gyfeilio.
Diolchwyd i bawb am y gefnogaeth gref i Gaffi'r Urdd yn ffreutur ysgol Brynrefail ar ddiwrnod Eisteddfod Cylch yr Urdd. Llongyfarchwyd a dymunwyd pob lwc i'r rhai fydd yn mynd ymlaen i'r Eisteddfod Sir ym Mangor.
Cynhelir Gŵyl y Pum Rhanbarth yn Ysgol Friars, Bangor, ddydd Sadwrn, mai 13eg. Mae angen talu £22 erbyn Mawrth 29ain os gwelwch yn dda.
Llongyferchir Mary Roberts ar ei herthygl hynod ddifyr yn Y Wawr gyda'i chip olwg ar dreftadaeth Gwynedd yn 'Storiel' Bangor: 'Rhagoriaeth yr amgueddfa gymharol fechan hon yw y medrwn fwrw golwg ar yr holl gynnwys mewn un ymweliad, gan gwmpasu bron pob agwedd o dreftadaeth Gwynedd. Yna cewch hamddena yn y siop a'r caffi sydd dan yr un to.' Neges Mary i ni yw 'mynnwch ymweld. Ni chewch eich siomi.' Cynhelir arddangosfa o hanes y Mudiad ers hanner can mlynedd yn y Parc ar Mehefin 19-23ain. Dymuna Mair a Margaret ddiolch i bawb am gefnogi'r Distawrwydd Noddedig, gan gasglu £180.
Bu Dafydd Whiteside Thomas yn beicio yn y Ganolfan Hamdden i ddathlu ei ben-blwydd yn 70 oed ar Fawrth 17. Cytunodd y Gangen i'w noddi gan gyfrannu £70 tuag at ei elusen – Ysgol Pendalar. Bydd gwobr i'r un all ddyfalu yr amser a gymer. Diolchir i aelodau'r Gangen am eu parodrwydd i'w noddi ar y noson hefyd.
Dymunir diolch o galon i Nan, Pat, Julie a Meryl am baratoi gwledd y noson ac am addurno'r byrddau gyda'r genhinen Bedr i ddathlu gŵyl ein nawddsant. Diolch hefyd i Meryl a Nan am fynd i Ganolfan Llanwnda i sganio'r Llyfrau Lloffion a difyr oedd pori drwyddynt a mwynhau trem yn ôl.
Adloniant y noson oedd 'Triawd Edern', Bodedern, Môn, sef Elain, Glesni a'u mam, Ann Peters Jones – athrawes gerdd deithiol yn canolbwyntio ar y llais. Cyflwynydd ffraeth y parti oedd Rhys, y Tad. Cychwynnwyd gyda chân werin gan Elain a Glesni a mam ar yr organ. Dilynwyd gydag ambell jôc ddigri gan Rhys ac yna unawd Cerdd Dant deimladwy gan Glesni yn olrhain hanes Angharad Tomos yn y carchar dros ein Sianel a'r gosodiad gan Ann. Yna deuawd, 'En bateau' gan y genod a deuawd Cerdd Dant yr urdd eleni.
Mwynhawyd deuawd ar y piano gan y genod ac yna y gân deimladwy, 'Colli Iaith'. Gwerthfawrogwyd y gân Sioe Gerdd 'Pwy a'm caro fel yr wyf', gan Elain. Yna, jôc slic gan Rhys am y bys, y fraich a'r pen.
Swynwyd ni gyda'r ddeuawd 'Nos o Sêr a nos o Serch'. Dilynwyd gyda chân gan Meirion McIntyre Huws, 'Os oes gennyt ti gân', gyda'r neges, 'os oes gennyt gân, cawn amser gorau erioed, os oes gennym gân.' Do, fe gawsom ninnau orig orau erioed am fod ganddynt hwy fôr o gân.
Diolchwyd i'r Triawd a Rhys am noson mor gerddorol gyda chymaint o amrywiaeth. Llongyfarchiadau iddynt ar ennill ysgoloriaeth Ensemble Lleisiol a phob dymuniad da i Elain, Glesni a ffrind iddynt yn Eisteddfod yr Urdd ac, wrth gwrs, yn Eisteddfod Genedlaethol Môn ym mis Awst. Gobeithio y cawn eu cwmni unwaith eto a hynny'n fuan.
Enillydd y Raffl oedd Iris, a diolch iddi hi am fod yr un a gynigiodd 'Triawd Edern' i ddod atom i fwynhau Dydd Gŵyl Ddewi.
Dalier Sylw 'Byd yr Adar' gyda Gareth Jones fydd gennym nos Fawrth, Ebrill 4ydd – y nos Fawrth cyntaf.

**Dosbarthu'r Eco.**
Ein diolch i Lorna Owen, Tai Brynafon, Crawia am ddosbarthu'r Eco yn y cylch ers nifer helaeth o flynyddoedd. Croeso i John a Sian Williams (pobl drws nesa i Lorna) sydd wedi gwirfoddoli i wneud y gwaith o'r mis hwn ymlaen. Ein diolch hefyd i Dilys Jones, Hafan Elan sydd hefyd yn dirwyn i ben ei chyfnod o ddosbarthu, a hynny ers rhifyn cyntaf yr Eco, nol yn 1976; dros ddeugain mlynedd o wasanaeth. Byddai'r Eco yn falch o wirfoddolwr yn Hafan Elan i barhau efo'r gwaith.

## Gwobr i seren ei chymuned



*Y wobr yn cael ei chyflwyno i Eilwen Charters gan Sarah Schofield, Cyfarwyddwr Cwsmeriaid a Chymunedau CCG.*

Llongyfarchiadau i Mrs Eilwen Charters o Hafan Elan, Llanrug, sydd wedi derbyn gwobr Sêr Cymunedol cymdeithas dai Cartrefi Cymunedol Gwynedd (CCG) am ei gwaith yn y gymuned.
Enwebwyd Eilwen am y wobr "Cymydog Da" gan Diane Morris, Cydlynydd Tai Gwarchod CCG, am fod yn denant sydd yn mynd y filltir ychwanegol ac yn barod iawn ei chymwynas.
Mae Eilwen yn gweithio'n galed i ddatblygu gweithgareddau ar safle tai gwarchod Hafan Elan ac yn awyddus i gefnogi a pharatoi'r gweithgareddau sydd yn cael eu cynnal yn yr ystafell gymunedol, megis clwb cinio, bingo, adloniant, dosbarthiadau ffitrwydd a llawer mwy. Mae Eilwen hefyd yn gwirfoddoli yn siop Age Cymru yn wythnosol ac yn rhoi llawer iawn o'i hamser yn gwirfoddoli er budd eraill.
Dywedodd Dylan Thomas, Rheolwr Cyswllt Cymunedol CCG: "Llongyfarchiadau mawr i Eilwen ar ennill y wobr y tro hwn. Hoffwn ddiolch iddi am ei gwaith caled, sydd wedi gwneud gwahaniaeth mawr i fywydau trigolion Hafan Elan. Rydym yn falch iawn o fod yn cydnabod pobl fel Eilwen sy'n llawn haeddu'r wobr.
"Mae pedwar gwahanol gategori o wobrau sêr cymunedol CCG; cymydog da, gwobr gwyrdd, gwobr pobl ifanc a syniad da. Os ydych chi'n gwybod am denant sy'n haeddu gwobr sêr cymunedol, ffoniwch y Tîm Cyswllt Cymunedol ar 0300 123 8084
neu e-bostiwchcymunedol@ccgwynedd.org.uk"

**Capel y Rhos**
**Gwasanaethau mis Ebrill**
2: Gweinidog, Y Parch Marcus Wyn Robinson
9: Mrs Eleri Jones
16: Sul y Pasg – Y Gweinidog
23: Y Barch Olwen Williams
30: Parch Dylan Rhys Parri

# Newyddion yr Ysgol Gynradd.



Ar Ddiwrnod y Llyfr daeth pawb i'r ysgol wedi gwisgo fel cymeriad o stori Yr eliffant eithaf digywilydd gan David Walliams.




Bu Timau pel rwyd yr ysgol yn nhwrnament Gwynedd a thwrnament yr Urdd. Da iawn chi genod.



Bu Guto Ewart yn cynrychioli Eryi yng Ngala Nofio Cenedlaethol yr Urdd yng Nhaerdydd yn nofio'r dull rhydd.



Blwyddyn 1 a 2 yn dathlu Gwyl Dewi

Mae Tim athletau dan do yr ysgol wedi mynd drwodd i rownd derfynol y sir ym Mhorthmadog.

Cynhaliwyd bore coffi yn yr ysgol i hyrwyddo Masnach Deg a chagslwyd swm o £147.00 tuag at yr achos.
Llongyfarchiadau i'r plant fu'n cystadlu yn eisteddfodau cylch a sir yr Urdd yn ddiweddar.
Mae blynyddoedd 3 a 4 wedi bod yn dathlu llawer yn yr wythnosau diwethaf gan gynnwys Dydd Gwyl Dewi a chael helfa drysor awduron ar gyfer diwrnod y llyfr. Cafodd blwyddyn 3 a 4 hefyd ymweliad gan swyddog o Sustrans sef elusen sydd yn hyrwyddo Beicio fel ffordd I Gadw'n Iach.
Mae'r dosbarth Derbyn a Meithrin wedi bod yn brysur iawn yn son am bobl sy'n ein helpu dros yr wythnosau diwethaf. Mae Anti Gwawr ein dynes Lolipop wedi bod i mewn i'r dosbarth yn son am bwysigrwydd croesi lon yn ofalus. Hefyd mae difforddwyr tan o Gaernarfon wedi dod draw gyda eu injan dan i son am eu gwaith nhw. Mae dwy nyrs am ddod i'r ysgol i siarad am sut y maent yn edrych ar ol pobl sal yn yr ysbyty ac mae PC Owain Edwards am ddod i ddysgu'r plant am ei waith.

Daeth Mr Duncan Brown atom i rhoi sgwrs ddifyr am adar. Diolch yn fawr iawn iddo.

# Ymlaen i Bencampwriaeth Prydain...




Ganol fis Mawrth teithiodd cefnogwyr ac aelodau Seindorf Arian Llanrug i Abertawe i gystadlu ym Mhencampwriath Bandiau Pres Cymru. Bu'r Band yn llwyddianus, gan ennill yr hawl i gael cystadlu ym Mhencampwriaeth Bandiau Pres Prydain wrth ddod yn ail yn Adran 1. Byddant nawr yn mynychu y gystadleuaeth yn Cheltenham yn mis Medi.

**Croesawu Band o Norwy**
Ar benwythnos 8/9 fed o Ebrill bydd y band yn croesawu Band Tysnes Musikklag o Norwy, ac ar nos Sadwrn 8fed bydd cyngerdd yn cael ei gynnal yng Nghapel y Rhos, Llanrug. Bydd y band o Norwy a Band Hŷn a Band Iau Llanrug yn cymryd rhan. Pris tocyn fydd £5, gyda'r noson yn cychwyn yn brydlon am saith o'r gloch.
Ar bnawn Sul y 9fed bydd seremoni gefeillio yn cael ei chynnal yng Nghastell Caernarfon rhwng y ddau fand.

## CLWB CINIO ARFON

Y cyn-gyfarwyddwr teledu Wil Aaron oedd y gwestai am gyfarfod mis Chwefror. Dechreuodd ei yrfa ar raglen bwerus Panorama, cyn symud yn ôl i Gymru ac ymwneud a sawl rhaglen yn enwedig rhai nodwedd. Roedd yn un o sylfaenwyr Ffilmiau'r Nant a gynhyrchodd ddwy o raglenni blaenllaw S4C sef C'mon Midffild a Hel Straeon.
Nid i'r cyfryngau serch hynny y trodd am ei destun. Yn hytrach, at faes ymchwil hollol wahanol a arweiniodd at gyhoeddi llyfr cyfoethog iawn dan y teitl 'Poeri i Lygad yr Eliffant'. Maes ymchwil y llyfr yw hanes y Mormoniaid o Gymru fentrodd draw i'r America rhwng 1847- 1869. Ie'r Mormoniaid. Roedd yn agoriad llygaid i glywed am gryfder y Mormoniaid yng Nghymru yn ystod y cyfnod , gyda nifer o'r aelodau yn Gymry Cymraeg. Roedd nifer o'r rhain wedi eu denu i'r Amerig gan y llif o fwynwyr yn ceisio'r aur draw yng Nghaliffornia yn 1849. Y man 'cyfarfod' oedd Dinas y Llyn Halen yn Utah, ac oddi yno trefnwyd yn finteoedd ac yn unigolion i groesi'r paith at 'wlad yr addewid'. Dyma gyfnod y 'wagon trains'. Gall rhywun ddychmygu yr anhawsterau, a phan oedd rhain yn cael eu amlygu, yna cyfeirwyd at yr anhap fel 'llef neu arswyd yr Eliffant'. Dyna'r cyfeiriad yn nheitl y llyfr.
Yn ystod y ddarlith arbennig yma cawsom wybod am helyntion sawl unigolyn. Y telynor dall a gerddodd gan dynnu trol a garia'i delyn y mil o filltiroedd i Ddinas y Llyn Halen. Ar y daith hunllefus hon collodd ei wraig a dau o blant. Tomos Evans, un goes, o Droed y Rhiw a wnaeth yr un daith ar ei undroed a choes bren. Cerdded wnaeth yntau hefyd. Hyd heddiw mae llwybrau'r teithwyr i'w gweld hyd y paith. Amcangyfrir fod rhyw 5000 o Gymry Cymraeg wedi teithio i Utah cyn dyfodiad y tren. Mae hyn dair gwaith yn fwy na'r criw fentrodd i Batagonia eto prin iawn yw'r sôn am y fenter hon. Un rheswm efallai oedd y casineb amlwg yng Nghymru rhwng y Capelwyr Anghydffurfiol a sect y Mormoniaid – yn enwedig yr 'amryw wragedd gan y Mormon'. Roedd gan Brigham Young arweinydd y Mormoniaid 55 gwraig.
Yr oedd y cyfnod yma yn gyfnod cyffrous yn America – Pony Express, Y Stage Coach, y Telegraph, dyfod y rheilffordd a Rhyfel yr Americaniaid Cynhenid.
Yn 1845 mae'r Mormoniaid yn danfon cenhadon i Gymru gan gynnwys Dan Jones o Helygain sy'n sefydlu cylchgrawn Udgorn Seion. Yn 1849 mae'n dychwelyd i Utah gyda'r Cymry oedd wedi troi at y Mormon. Lladdwyd nifer o'r teithwyr hyn gan y cholera. Un a gyrhaeddodd yn iach oedd Martha Hughes o Landudno sy'n agor ysbyty yn Ninas y Llyn Halen ac yn cael ei hethol fel y senator benywaidd cyntaf yn nhalaith Utah.
Hyd heddiw Dyffryn Malad yn Utah yw'r ardal gyda'r mwyafrif uchaf o ddisgynyddion Cymreig tu allan i Gymru. Mae'r ardal yn dal i gynnal ei Gŵyl Gymreig flynyddol heb unrhyw nawdd. Bu'r Gymanfa Genedlaethol yno fwy nag unwaith.
Rwyf am dorri yr adroddiad yma yn ei blas. Gallwch weld ei bod yn llawn cyffro, menter a gwrthdaro. Os wyf wedi codi blys yna ewch allan i brynnu'r llyfr.
Diolch i Wil am wledd o ddarlith wedi'r wledd arbennig arferol cyn gwrando. Rwy'n siwr y bydd cryn alw gan gymdeithasau lleol ar Wil i draddodi y ddarllith ( gyda lluniau) o'r maes ymchwil diddorol hwn.




## DINORWIG

Marian Jones.
Ffôn: (01286) 870291

**Diolch** Dymuna Mrs Betty Bower, Tan y Marian, ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd tuag ati yn ei phrofedigaeth o golli ei phriod, Ray. Bu pob gair a gweithred yn gymorth mawr iddi.
Diolch i Ysbyty Gwynedd, i'r nyrsys a gofalwyr yn y gymuned ac i'r meddygon teulu yn Llanberis am eu gofal diflino a charedig dros Ray.
Diolch o galon i bawb a fu o gymorth iddi yn y dyddiau tywyll hyn.
**Cofeb y Chwarelwyr** Yn ystod yr wythnosau diwethaf mae'r Gofeb yn yr Allt Ddu wedi bod yn werth ei gweld. Mae'r eirlysiau wedi gorffen erbyn hyn ond y mae'r cennin Pedr a'r grug o wahanol liwiau yn edrych yn hyfryd iawn. Mae ein diolch i'r diweddar Ray a'i wraig, Mrs Bety Bower, am y blodau a'r grug, ac y mae Betty yn gofalu bod Martin yn ei chadw yn dwt.
Diolch yn fawr i Betty a Martin.
**Cofiwn** at Mrs Priscilla Williams, Wylfa, a fu yn 103 yn mis Hydref a Mrs Megan Morris, Plas Garnedd, Llanberis a fydd yn 102 nesaf. Gobeithio y cewch eich dwy iechyd a nerth ac y cewch weld y pen-blwydd nesaf. Cofion yr ardal atoch eich dwy.
Anfonwn ein cofion at bawb arall sydd yn cwyno yn yr ardal. A ninnau yn nhymor y gwanwyn gobeithio y byddwch yn gwella. A chofiwch roi y cloc ymlaen ar 26 o Fawrth, pryd y bydd y dydd yn mynd yn hwy a'r tywydd yn gwella, a phawb yn teimlo yn well o hynny.

## Diffyg synnwyr



Llwyth o sbwriel wedi ei osod (yn eithaf taclus!!) o fewn libart y goedwig tu ôl i Gefn Du. Pwy yn ei iawn bwyll sy'n mynd i drafferth i gario sbwriel i'r fath le anghysbell a chanolfan ail-gylchu Cibyn mor agos? A chyfrifoldeb a chost pwy fydd ei symud oddi yno?

ECO'r Wyddfa

Cefnogwch ein hysbysebwyr

RHOSTIO MOCHYN
Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau
AR GYFER POB ACHLYSUR
DEWCS MAE O'N FLASUS
PARTION • PRIODASAU • PEN BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU
CIG O FFERMYDD LLEOL
PARTION RHWNG 40-400!
Cysylltwch a
John Brynafon
LLANRUG
www.ydyncig.co.uk
675190 • 673188
Symudol- 07798 718188

## DEINIOLEN Mrs Nia Gruffudd. Ffôn: (872133)




**Llongyfarchiadau** enfawr i Elin Dafydd o Ddeiniolen a ddaeth yn 1af ar yr Unawd Pres Blwyddyn 6 ac iau. Ac hefyd, mi ddaeth yn 1af a'r yr Unawd Blwyddyn 5 a 6 yn Eisteddfod Yr Urdd, Cylch Eryri.

Diolch yn fawr iawn i Mr. Gavin Wyn Saynor a Mrs Sian Gibson am ei hyfforddi, ac i Lois Eifion am gyfeilio iddi. Ymlaen â ti rŵan i'r Sir. Pob lwc

**Gwener y Groglith** Rhwng 2 a 3 o'r gloch ar brynhawn Y Groglith (Ebrill 14) cynhelir gwasanaeth Yr Awr Dawel yn Eglwys Crist Llandinorwig. Emynau a myfyrdodau am Y Groglith a geir gyda'r Canon Idris Thomas, Glanrafon yn arwain. Croeso cynnes i bawb

**Cymdeithas Undebol Deiniolen** Croesawyd pawb ynghyd i gyfarfod mis Chwefror o'r Gymdeithas gan y Llywydd, croeso arbennig i'r gŵr gwadd, sef Parch Dafydd Job, Bangor. Soniodd am ei ymweliadau dros y blynyddoedd ag eglwysi yn Nwyrain Ewrop.

Mae Mr Job wedi bod yn ymweld ag eglwysi mewn sawl gwlad erbyn hyn, mae'n teithio i Ddwyrain Ewrop hyd at 5 gwaith y flwyddyn, yn aml iawn mewn amgylchiadau hynod o anodd ac yn wyneb erlid a gwrthwynebiad.

Diolchwyd iddo yn gynnes gan Mr Bryan Price. Anfonwn ein cofion at Mrs Iona Richards a Mr John Ll. Williams.

**Diolch** Dymuna Mrs Beryl Griffith, 5 Maes Gwylfa, ddiolch i'w theulu, ffrindiau triw, gofalwyr, y ficer ac aelodau Eglwys Santes Helen Penisarwaen am yr holl flodau, anrhegion a'r cardiau bendigedig a dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn 102 mlwydd oed. Diolch o waelod calon am eich haelioni.

**Diolch** Dymuna Alwyn a Valmai, Hafle, ddiolch o galon i'w teulu a ffrindiau am y galwadau ffôn, cardiau, arian, anrhegion a'r blodau hardd a dderbyniwyd ar achlysur eu Priodas Aur.

**Diolch** Dymuna Elan, 15 Hafod Oleu ,ddiolch yn fawr iawn i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am yr anrhegion, cardiau a galwadau ffôn ar achlysur ei phen-blwydd yn ddiweddar.

**Eisteddfod yr Urdd** Llongyfarchiadau i holl blant a phobl ifanc y pentref a'r ardal ar eu llwyddiant diweddar yn yr eisteddfod cylch a dymuniadau gorau iddynt i gyd yn yr eisteddfod sir.

Cronfa Ymddiriedolaeth Deiniolen Cyfarfu'r aelodau ar 21.02.17. Derbyniwyd 5 cais am gymorth, a dyfarnwyd cyfraniadau fel a ganlyn:

Ysgol Feithrin Deiniolen - £600

Clwb Snwcer Deiniolen - £400

Eisteddfod Gadeiriol Deiniolen - £500

Seindorf Arian Deiniolen - £600

Merched y Wawr Cangen Deiniolen - £300

**Gŵyl Deiniolen a'r Cylch 2017** Cafwyd disgo llwyddiannus eto eleni gan ddiweddu trwy ddewis brenhines newydd ar gyfer yr Ŵyl. Eleni dewiswyd y canlynol fel brenhines a gosgordd:

Brenhines - Alaw Hughes

Tywysoges - Abi Thomas

Tywysog - Harri Booth

Tywysog bach - Owain Jones

Merch y blodau - Cadi Haf Tate

**Merched y Wawr** - cafwyd Cinio Gŵyl Ddewi llwyddiannus nos Wener, y 10fed o Fawrth, pan aeth criw ohonom i ddathlu gŵyl ein nawddsant yng Ngwesty Fictoria, Llanberis. Mwynhaodd pawb bryd tri chwrs blasus iawn ac roedd yr adloniant i ddilyn gan Magi Tudur o Benisarwaun, at ddant pawb hefyd. Roedd Magi'n chwarae gitâr arbennig, a oedd yn rhodd iddi ar ôl y cyfansoddwr a'r cerddor enwog, Alun Sbardun Huws, ac roedd yn fraint ganddi gael cyfansoddi a chanu caneuon amrywiol a thlws gan ddefnyddio'r offeryn hwn, meddai.

Edrychir ymlaen yn awr at ein cyfarfod nesaf, nos Fawrth, 18fed Ebrill (yn lle'r nos Lun arferol, oherwydd Gŵyl Banc y Pasg eleni) yng nghwmni Sarah Davies, o Sefydliad y Galon, a fydd yn siŵr o roi gwybodaeth werthfawr a defnyddiol i ni.




**Hywel Williams**
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

**Swyddfa Etholaeth**
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
williamshy@parliament.uk

**Premier**
**Y Storfa Premier Llanrug**
Sgwar Llanrug
01286-673108

Bwydydd, Diodydd, Papurau Newydd, Cardiau Cyfarch, Swyddfa Bost

Llun-Sadwrn 6.30am-9pm Sul 8am - 9pm




**Siân Gwenllian**
Aelod Cynulliad
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

**Swyddfa Etholaeth,**
70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
(01248) 372948
**Swyddfa Etholaeth,**
8 Stryd y Castell, Caernarfon,
LL55 1SE
(01286) 672076
Sian.Gwenllian@cynulliad.cymru


Ysgol Brynref


FALCON FORCE
YSGOL BRYNREFAIL
LLANRUG
CAERNARFON
GWYNEDD
LL55 4AD




Nawr ymlaen i Silverstone i gystadlu
yn Rownd Derfynol Prydain.
Llongyfarchiadau i Tim Falcon Force ar
Llwyddiant yn y gystadleuaeth
ranbarthol Gogledd Cymru – F1 in Sch










Llongyfarchiadau I bawb o Ysgol Brynrefail a fu'n cystadlu ac yn llwyddiannus yng Nghystadlaethau'r Rhanbarth Arfon.




















# Ysgol Gymuned Penisa'r-waun



**Dydd Gŵyl Dewi** - Cafodd y plant gyfle i ddod i'r ysgol mewn gwisg yn gysylltiedig â Chymru ar Fawrth 1af. Yn y prynhawn cynhaliwyd pnawn Te Cymreig gan bwyllgor y Neuadd Gymuned gyda phlant yr ysgol ac aelodau'r pwyllgor yn paratoi'r adloniant . Roedd llawer o wahanol bobl o'r Gymuned wedi troi mewn ac wedi mwynhau eu hunain yn arw. Diolch yn fawr i bawb am eu cefnogaeth. Gobeithiwn gynnal prynhawn tebyg y flwyddyn nesaf.



**Ymweliadau** - Croesawyd Ann Owen Williams, Swyddog Addysg y Cynulliad, i'r Ysgol fore Gwener, Mawrth 3ydd. Cafwyd sgwrs ddiddorol ganddi ar waith y Cynulliad. Diolch i Dewi Jones sydd wedi bod yn fyfyriwr yn yr ysgol am drefnu'r ymweliad yma. Pnawn Llun Mawrth 6ed croesawyd Siân Gwenllïan Aelod Cynulliad Arfon i'r ysgol i roi sgwrs bellach i blant CA2 ynglŷn â'i gwaith yn y senedd yng Nghaerdydd.
*'Braf ymweld ag Ysgol Penisa'rwaun pnawn ma. Cwestiynau difyr iawn gan y plant. Diolch am y croeso.'*



**Diwrnod y Llyfr** - Bu'r ysgol yn dathlu'r diwrnod dydd Iau, Mawrth2ail. Cafodd pawb gyfle i wisgo fel cymeriad o'i hoff lyfr yn ogystal â thrafod y llyfr yn y dosbarth.

**Eisteddfod Cylch yr Urdd** - Cynhaliwyd yr Eisteddfod yn Ysgol Brynrefail dydd Sadwrn, Mawrth 4ydd. Llongyfarchiadau i Efan Jac am gael llwyfan ar yr unawd BL2 ac iau. Llongyfarchiadau i Megan Ebrill, Lois a Nel sydd yn aelodau o'r grŵp dawnsio "Llwch y Lloer," ar eu llwyddiant yn yr Eisteddfod Symudol. Daethant yn 4ydd allan o 10 grŵp oedd yn cystadlu. Da iawn chi i gyd.



Bore Mawrth, 7fed, galwodd PC Dylan yn yr ysgol i roi gwers i blant Cyfnod Sylfaen, Bl 3 a 4 a 5a 6 - Gwers ar gyffuriau, diogelwch y We ac ymddygiad gwrth cymdeithasol

Roedd hi'n braf croesawu Cemlyn Jones a Morfudd Thomas i'r ysgol fore Llun, Mawrth13eg. Roeddynt yn adrodd yn ôl i roi gwybod i'r plant am yr hyn a brynwyd gyda'r arian a gasglwyd i blant bach Nepal. Roedd wedi bod yn bosib prynu cwpanau, offer a phast glanhau dannedd yn ogystal â mynd â thanc dŵr wedi ei gysylltu er mwyn glanhau'r toiledau.
Dydd Iau, Mawrth23, mwynhawyd sesiwn blasu "Dawns i Bawb" gan Elin.

## *Parhad* PENISARWAUN

**Ail gylchu Antur Waunfawr**- Diolch i bawb sydd yn dod â dillad ayyb i'r bin ail gylchu sydd yn yr ysgol. Mae hyn yn sicrhau cyfraniad ariannol i'r ysgol bob tro mae'r bin yn llawn. Daliwch ati!

Fel rhan o'u thema "Dathliadau" bu plant y Cyfnod Sylfaen yn brysur yn cynllunio ar gyfer paratoi te prynhawn. Roedd y bwrdd yn werth ei weld a gwahoddwyd Mrs Roberts, y Pennaeth, draw i'r dosbarth pnawn dydd Iau, Mawrth 16, i fwynhau'r wledd gyda'r plant.

**Cronfa Pensiynwyr Penisarwaen**

Pêl Bonws Loteri - Enillydd Mis Chwefror oedd Mrs Marina Williams gyda rhif 26. Llongyfarchiadau.

**Diolch** – Dymuna Anti Jean ddiolch o galon i bawb am ei noddi i siafio ei gwallt ar nos Wener, Mawrth 3ydd. Casglwyd £1,315 ac mae'r arian wedi ei drosglwyddo i Bryn Roberts, bydd peth o'r arian yn cael ei drosglwyddo gan Bryn i gronfa CLIC Sargent sydd yn cefnogi plant ac oedolion ifanc sydd yn dioddef o ganser a leukaemia. Mae Bryn yn hynod ddiolchgar i Anti Jean ac i bawb am ei gefnogi.

**Pwyllgor Neuadd Gymuned** Mwynhawyd pnawn hynod o gymdeithasol ddydd Mercher, Mawrth 1af, i ddathlu Gŵyl ein Nawddsant. Dymunir diolch am gyfraniadau clodwiw gan blant y Cyfnod Sylfaen a'r Cynradd a diolch i Annettte Bryn Parri am gyfeilio.

Tynnwyd Clwb Cant Mawrth a'r enillwyr oedd: Rhian Thomas, Seion, Bethel a Gwenllian Carr.

Diolchir i bawb ohonoch am eich cefnogaeth arferol. Cynhelir 'Disgo'r Pasg' nos Iau, Ebrill 6ed, o 6 o'r gloch tan 7.30. Bydd stondin Tombola, cŵn poeth a raffl ar werth. Disgwylir i blant o oed Meithrin i Blwyddyn 3 fod yng ngofal oedolyn, os gwelwch yn dda.

Bydd cystadleuaeth addurno het Basg gyda gwobr i'r cystadleuydd llwyddiannus.

Cynhelir 'Hwyl yr Haf' nos Iau, Mehefin 8fed gyda stondinau a gemau.

**Llongyfarchiadau Mawr** Anfonir ein dymuniadau gorau i Leslie Larsen ar gyrraedd yr oedran teg o 90 mlwydd oed yn ddiweddar. Rydym fel pentref yn ddiolchgar iddo ef a Pat am eu gwaith diflino i'r gymuned ac yn dal yn deyrngar i'r holl weithgareddau sy'n mynd ymlaen yn y pentref bywiog yma. Ymlaen am y 100 i'r ddau ohonoch gyda phob bendith.

**Llongyfarchiadau Anrhydeddus** Rydym fel Pwyllgor y Neuadd Gymuned yn hynod falch o ethol Pat yn Llywydd Anrhydeddus am Oes gan ddiolch iddi am ei ffyddlondeb i'r Pwyllgor i gynnal a chadw'r Neuadd Gymuned ar gyfer y pentref a'r ysgol. Derbyniwyd cerdyn o ddiolch gan Pat gyda'r pennill hyfryd yma arno:

'Nid oes angen geiriua heddiw

I gyfleu 'nheimladau i,

Dim ond gair o ddiolchgarwch

Am eich caredigrwydd chi.

Diolch i chithau, Pat, am eich caredigrwydd chi.

**Diolch** Dymuna Leslie Larsen, 'Llygad yr Haul', ddiolch o galon am y llu cardiau a'r dymuniadau gorau a dderbyniodd i ddathlu ei ben-blwydd arbennig. Gyda llawer o ddiolch.

**Eisteddfod Bentref 2017 Gorffennaf 5ed** Cynhelir yr Eisteddfod yn y Neuadd Gymuned am 6.00. Bydd yr ymarferion yn cael eu cynnal fel a ganlyn:

Oed Cynradd: Bydd yr ymarferion cyntaf nos Lun, Mehefin 6ed, o 6 tan 7 o'r gloch yn y Neuadd Gymuned.

**Llongyfarchiadau** i Pat ac Arnold ar achlysur dathlu eu Priodas Aur ar Fawrth 25ain.

**Ysgol Sul Bosra** Ni chynhelir Ysgol Sul yn ystod gwyliau'r Pasg, byddwn yn ailgychwyn ar y Sul wedi i'r ysgol ailagor. Croeso cynnes i aelodau newydd. Dymuniadau gorau i Arnold, Trysorydd yr ysgol Sul, a Pat ar eu Priodas Aur.

**Pob Lwc** Gyda'r amrywiol arholiadau ar y trothwy, dymunir pob lwc i bawb ohonoch sy'n sefyll yr arholiadau yn ystod yr wythnosau i ddod. Cofiwch 'Gorau Arf, Arf Dysg'.

**Cydymdeimlwn** yn ddwys â Mair, Amanda ac Yvonne yn eu profedigaeth o golli Mike Orrock, gŵr annwyl a thad gofalus, tad yng ngyfraith a thaid balch.

**Gwellhad** Anfonir ein cofion gorau at bawb sy'n sâl neu wedi derbyn triniaeth yn yr ysbyty. Brysiwch wella i gyd.


Cynnal a Chadw Gerddi ac Adeiladau



TORRI GWAIR/ GWRYCHOEDD/ COED
PLANNU • CHWYNNU • PEINTIO • GWAITH COED
PLASTRO • GOSOD CEGINAU AMCANGYFRIF AM DDIM
Sion Roberts 07759415753
3 CARADOG PLACE • DEINIOLEN • LL55 3H5

Marchnad Ogwen
Neuadd Ogwen Bethesda
Ar yr ail Sadwrn yn fisol 9.30 - 1.30
Bwydydd • Crefftau • Lleol
www.marchnadogwen.co.uk

DODREFN A LLORIAU
PERKINS
FURNITURE & FLOORING
••• 01286 673535 •••
www.perkinsfurniture.co.uk
16 Stryd Porth Mawr, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1AG

ARVONIA






✓Gwyliau cerbyd moethus Prydeinig a Chyfandirol.
✓Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
✓Adran teithiau grŵp.
✓Tocynnau rhodd.
✓I weld ein holl deithiau a chynigion arbennig ewch i'n gwefan.
01286-675175 www.arvonia.co.uk

LLANBERIS Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt, Ffôn: 870740

# Newyddion Ysgol Dolbadarn



Llwybrau Llechi

Bu disgyblion Blwyddyn 6 yn rhan o gynllun Llwybrau Llechi ar y cyd ag ysgolion eraill mewn ardaloedd diwydiant llechi megis Ysgol Llanllechid. Cafodd y plant gylel i droedio rhan o'r llwybr llechi yng nghwmni Anita Daimond a'r artist Jwls Williams. Lawnsiwyd y cyfan mewn gweithdy arbennig yn yr Amgueddfa Lechi yn ddiweddar. Yr oedd yn braf iawn gweld disgyblion yr ysgol yn ymddiddori yn hanes yr ardal leol.



PC Dylan

Daeth PC Dylan atom eto y tymor hwn er mwyn trafod cyfeillgarwch a diogelwch ar y we- diolch iddo am ei gwmni.



Ffair Lyfrau

Bu i ddisgyblion Blwyddyn 3 drefnu a chynnal arwerthiant llyfrau ail-law er mwyn codi nawdd tuag at ysgol a effeithwyd gan ddaeargryn yn Nepal yn ddiweddar. Bu'r disgyblion wrthi'n brysur yn didoli llyfrau ail-law a chreu arddangosfa arbennig ar gyfer plant yr ysgol. Llwyddwyd i godi o gwmpas £170 ar y diwrnod- diolch i bawb am eu cyfraniadau hael.

Siarter Iaith

Mae'r ysgol yn ymfalchio yn fawr yn y ffaith ei bod wedi derbyn achrediad Aur ar gyfer y Siarter Iaith. Mae'r llwyddiant hwn yn adlewyrchu gwaith caled y staff, rhieni ac yn holl-bwysig y disgyblion wrth ymdrechu i gadw ymwybyddiaeth y disgyblion o'r iaith a diwylliant Cymreig yn flaenoriaeth. Bydd rhaid parhau i ymdrechu er mwyn cadw y Wobr Aur y tro nesaf hefyd.



Ysgol Eco

Mae datblygiadau ar droed er mwyn sefydlu statws Ysgol Eco i'r ysgol ar y cyd â chynllun polineiddio a chynllun Tesco Bags of Help. Mae'r ysgol hefyd wedi ysgrifennu at gwmniau a busnesau lleol er mwyn codi nawdd i ddatblygu'r ardd. Mae £500 wedi ei dderbyn eisioes gan Magnox a £150 gan Chwarel Penrhyn. Mae'r ysgol yn gweithredu fel Ysgol Arweiniol Creadigol eleni a mae un dosbarth yn cyd-weithio gydag artistiaid er mwyn datblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd yn yr amgylchedd. Hoffai'r ysgol ddiolch i garfan weithgar iawn o rieni ac Anna Williams o'r Gymdeithas XXXX am eu hymdrechion di-flino yn hyn o beth.

Mae clwb garddio wedi ei seflydlu yn yr ysgol a mae'r plant yn brysur iawn yn chwynnu a phlannu ar hyn o bryd er mwyn do dag ychydig o liw i'r ddau fuarth erbyn yr Haf.



Presenoldeb

Mae gwella presenoldeb yr ysgol yn flaenoriaeth eleni- dyma rai o ddisgyblion Blwyddyn 2 yn arddangos eu tystysgrifau presenoldeb llawn am yr hanner tymor – da aiwn chi blant!

Gwobrau Arbennig

Llwyddodd un plentyn ym mhob dosbarth i ennill gwobr arbennig ar ddiwedd yr hanner tymor sef gwobrau am nodweddion arbennig megis cyfeillgarwch, haelioni, caredigrwydd ac ymdrech. Da iawn chi blant- dyma enwebiad arbennig yn wir.

Diolch

Hoffai'r ysgol ddiolch i Andrew Settatree am ei waith yn yr ysgol yn ystod y blynyddoedd diwethaf a dymunwn y gorau iddo yn ei swydd newydd.

Diolch hefyd i gôr Dyffryn Peris am eu rhodd garedig i'r ysgol yn dilyn eu cyngerdd Nadolig Blynyddol- bydd y rhodd hon yn cael ei defnyddio tuag at weithgareddau côr yr Ysgol yn y dyfodol.

## *Parhad* LLANBERIS

**Diolch** Dymuna Barbara, Mike a'r teulu ddiolch i deulu, ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli mam, nain, hen nain, chwaer, modryb a ffrind arbennig iawn, sef Kate Owen, 8 Hafan Elan, Llanrug. Diolch hefyd i staff meddygfa Llanrug a Waunfawr, yn enwedig Dr Esyllt Llwyd am ei gofal ohoni, hefyd staff Ward Alaw Ysbyty Gwynedd. Gwerthfawrogwyd cyfraniad y Parchedig Carol Roberts yn y gwasanaeth yn Eglwys St Peris, Nant Peris, ac yn yr Amlosgfa. Diolch arbennig iawn i Mrs Meinir Griffith a'r cwmni, Penisarwaun, am y trefniadau trylwyr dros y cyfnod. Diolch i bawb gyfrannodd yn ariannol er cof am Kate, rhannwyd yr arian rhwng Meddygfa Llanrug a Waunfawr a Ward Alaw.

**Doethuriaeth** Llongyfarchiadau i Bryn Jones, mab Phyllis a'r diweddar Stanley Jones, 60 Dôl Elidir, ar ennill Gradd PhD ym Mhrifysgol Bangor. Mae Bryn yn Ddarlithydd yn yr Ysgol Addysg, a dyfarnwyd doethuriaeth iddo ar sail ei ymchwil i addysg ddwyieithog yng Nghymru. Dymuniadau gorau iddo gan y teulu oll.

**Diolch** Dymuna Trefor ddiolch i bawb am yr holl garedigrwydd a ddangoswyd tuag ato tra bu yn yr ysbyty yn ddiweddar. Mae'n diolch hefyd am bob cefnogaeth a gafodd yn ystod y deunaw mlynedd y bu'n Gynghorydd Sir dros Llanberis a Nant Peris. Hoffai ddymuno'n dda i'r sawl a gymer yr awenau Fis Mai.

**Oedfaon Capel Coch am fis Ebrill**

2il: Mr Norman Closs 10yb, Parchedig Geraint Roberts 5yh

9fed: Gweinidog 10yb, Oedfa Moli 5yh

16eg: Parchedig Euros Jones 10yb, Dim Oedfa'r hwyr!

23ain: Oedfa Deulu 10.30yb

30ain: Mrs Nerys Griffiths 10yb, Mr Dewi Jones 5yh

## CWM Y GLO

**Gwellhad Buan** Dymunwn wellhad buan i Mrs Hilda Orritt, Moranedd ar ôl derbyn triniaeth i'w choes yn Ysbyty Gwynedd. Hefyd i'r rhai o'r pentref sydd heb fod yn dda yn ddiweddar.

**Pen-blwydd Hapus** Dymuniadau gorau i Les Orritt, Moranedd, sy'n dathlu ei ben-blwydd yn 80 ar ddydd Sul, 9fed o Ebrill. Cariad mawr a llu o swsys gan Hilda, y plant, yr wyrion Dan a Dafydd, gor-ŵyr Bentey bach a heb anghofio, Guto Wyn. Mwynhewch y dathlu!

## BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts -Williams. Ffôn: 870580

**Pen-blwydd Arbennig** Llongyfarchiadau arbennig iawn i Jennie Angharad Roberts, 2 Ffrwd Madog, ar ddathlu ei phen-blwydd yn 90 oed ar Fawrth 20fed. Mae ein cofion cynhesaf ati ar gyrraedd yr oedran teg hwn. Ni fu ei hiechyd yn dda yn ystod y blynyddoedd diwethaf ond er hynny mae wedi gallu mwynhau bywyd ar ei haelwyd drwy wasanaeth gofalwyr, dyddiau ym Mhlas Pengwaith a charedigrwydd a ffyddlondeb teulu a ffrindiau. Yn anffodus bu raid iddi dderbyn gofal dwysach ers rhai dyddiau bellach yng Nghartref Nyrsio Cerrig yr Afon, Y Felinheli. Rydym yn dymuno'r gorau iddi a hithau erbyn hyn yr hynaf o drigolion y pentref.

**Sefydliad y Merched** Yng nghyfarfod Chwefror o'r gangen leol y siaradwr gwadd oedd Dei Tomos, Nant Peris. Treuliwyd noson bleserus yn ei gwmni yn adrodd storiau difyr am ymwelwyr cynnar i ardal Llanberis.

I ddathlu Gŵyl Ddewi cafwyd noson arbennig o adloniant gyda datganiadau cerddorol gan barti lleol Genod Cadwyn a Gareth Jones o Ddeiniolen. Paratowyd y lluniaeth blasus o gawl cennin a theisennau amrywiol gan aelodau'r gangen a fwynhawyd i gloi'r noson.

Ymhlith gweithgareddau i ddod mae Cwis y Ffederasiwn yng Nghlwb Cymdeithasol Llanberis a noson gyda Gill Parry yn arddangos crefftau gwau yn Y Ganolfan Llanberis yn ystod mis Ebrill. Dymunwn yn dda hefyd i'r tîm dartiau yn eu gemau cyn bo hir.

**Gwelliant y Brifforddd** Fel ag y cyfeiriwyd yn y rhifyn diwethaf o'r Eco a chodi rhai cwestiynau, mae pawb rwy'n siŵr yn croesawu y gweddnewid a'r tacluso fu ar y darn o'r ffordd o Racca i gyffordd y pentref - y palmant llydan a'r atgyweirio fu ar y clawdd ar y tro am y pentref fu'n ddolur llygad ers amser maith. Ond i ohebydd lleol yr Eco fu'n ymholi'n ddi-baid i'r rhai mewn awdurdod ers blynyddoedd i ble diflannodd arwyddion y pentref ger mynedfa'r Maes Carafannau a Phont Penllyn, llawenydd personol oedd gweld yr arwydd BRYNREFAIL yn ei le unwaith eto - o un cyfeiriad i'r pentref o leiaf. Pa bryd y cawn ni'r llall tybed?

**Yr Eglwys Bresbyteraidd** Llongyfarchiadau i Robert John Williams, Tyddin Badin, un o'n haelodau ffyddlonaf ar ddathlu ei ben-blwydd yn 80 oed ar Fawrth 22ain.

**Oedfaon Ebrill**

2: am 5: Parch Marcus Robinson (Gweinidog)

9: am 2: Parch Olwen Williams, Tudweiliog

16 SUL Y PASG am 5: Parch Gwynfor Williams, Caernarfon
Gweinyddir y Sacrament o Swper yr Arglwydd

23: am 5: Parch Dafydd Lloyd Hughes, Caernarfon

30: am 5: Mr Robert Morris, Penygroes








# *Cwmni Drama Waunfawr*

Roedd Cwmni Drama y Waunfawr yn ystod blynyddoedd y pedwar a phumdegau'r ganrif ddiwethaf yn un o'r cwmniau mwyaf llewyrchus a llwyddiannus yng ngogledd Cymru. Ynghynt ac wedi'r Ail Ryfel Byd roedd pentref y Waunfawr, fel llawer i bentref arall, yn fwrlwm o fywyd diwylliannol. Yn y cyfnod yma roedd y gweithgareddau fel Eisteddfod y capel, Dramâu, Nosweithiau Llawen ac yn enwedig y Gymdeithas Lenyddol yn ffynnu ac yn eu hanterth. Er bod cwmniau drama brwdfrydig yn yr ardal yr adeg honno, amaturaidd iawn oedd y perfformiadau, yn fwy o hwyl na dim arall. Ni chymerwyd yr un perfformiad o ddifri, ac yn ogystal ac anghofio eu llinellau deuai'r actorion, yn amlach na pheidio, i'r lwyfan o'r ochr neu ar yr adeg anghywir. Roedd hyn yn peri i'r gynulleidfa dorri allan i chwerthin, yn enwedig pan fyddai barf neu fwstas gosod un ohonynt yn dod i ffwrdd oddi ar ei wyneb.

Fel y crybwyllais, roedd y Gymdeithas Lenyddol yr adeg honno yn hynod boblogaidd gyda rhaglenni ac eitemau diddorol a difyr wedi eu paratoi ar gyfer yr aelodau. Ar gyfer cyfarfodydd olaf y tymor dechreuodd un o'r aelodau, William Vaughan Jones, gyfansoddi dramâu i'w perfformio gan rai o aelodau eraill y Gymdeithas. Roedd Wil Fôn yn ffrind mawr i'r Dr John Gwilym Jones, y ddau ar un cyfnod wedi bod yn athrawon yn Llundain, a thra yn y ddinas fawr manteisiodd y ddau ar y cyfle i fynychu'r theatrau i wylio ac astudio dramâu. Daeth Wil Fôn ac agwedd hollol newydd i fyd y ddrama yn y Waunfawr, ac er mai criw bychan o actorion lleol dibrofiad oedd y cast, roedd dylanwad a phroffesiynoldeb y dramodwr yn amlwg wedi rhoi hyder ac ysbrydoliaeth i'r criw o weld y graen a'r disgleirdeb yn eu perfformiadau. Mawr fu'r galw am fwy o gynyrchiadau wedi hynny, ac yn fuan ffurfiwyd Cwmni Drama Wil Fôn, gyda'r dramodwr yn ysgrifennu drama newydd ar gyfer y cwmni bob blwyddyn.

Yng nghystadleuaeth y Ddrama Hir yn Eisteddfod Genedlaethol Llandybie 1944 gwobrwywyd ac enillwyd y fedal gan William Vaughan Jones am ei gynhyrchiad o'r ddrama 'Brwyn ar Gomin'. Roedd y ddrama fuddugol wedi ei seilio ar flynyddoedd cynnar y ddeunawfed ganrif ar yr adeg pan fu twf a datblygiad mawr yn y chwareli bychain. Bu cynnydd yn nifer y gweithwyr a sylweddolwyd yn fuan fod angen mwy o dai ar eu cyfer.

Roedd chwareli fel Cefndu ar gyrion y Waunfawr yn enghraifft dda o hyn ac, ymhen amser, cytunwyd a chaniataodd yr awdurdodau i'r teuluoedd adeiladu Hafotai unos ar y cytir (y Comin). Gosodwyd amodau yn eu lle dan y ddealltwriaeth fod rhaid i'r sawl a adeiladodd ei d? fod wedi cwblhau y gwaith cyn y bore, gyda mwg yn codi drwy'r simdde fel arwydd o gwblhau y gwaith. Bythynnod isel un llawr oedd y rhan fwyaf, wedi eu hadeiladu o dywyrch gyda siambr fechan ac ystafell wely ynddynt. Deuai nifer o gymdogion at ei gilydd i gynorthwyo'r perchennog ac i ysgwyddo'r baich adeiladu. Gweithiai'r perchennog wedyn yn galed ar y tir gan godi cerrig i wneud gwell muriau i'r t? ac hefyd codi clawdd cerrig fel terfyn o amgylch ei dir.

Yn 1801 gan fod angen mwy o dir ar y wlad, newidiwyd deddfau yn y senedd ac o ganlyniad, manteisiodd y bonedd a'r cyfoethogion lleol ar y cyfle i feddiannu'r bythynnod a hawlio'r cytir. Y prif ysgogydd ar y pryd oedd John Evans, cyfreithiwr o Gaernarfon a swyddog o dan y 'Court of Great Sessions.' Bu'n erlid y tyddynwyr yn ddidrugaredd. O ganlyniad, ac o dan arweinyddiaeth y Dr Sion Jones, cododd y cominwyr yn erbyn y gwrthwynebwyr a bu gwrthdaro ffyrnig rhwng y ddwy ochr. Cosbwyd a carcharwyd nifer o'r terfysgwyr ac ymfalchiai John Evans drwy ymffrostio'n orchestol ei fod wedi llwyr 'ddofi'r teigrod'.

Yn dilyn llwyddiant drama Llandybie, bu i Wil Fôn ysgrifennu nifer o ddramâu newydd ar gyfer y cwmni oedd, erbyn hyn, wedi newid yr enw o Gwmni Drama Wil Fôn i Gwmni Drama Waunfawr. Yn ogystal â 'Brwyn ar Gomin' roedd cynyrchiadau eraill fel 'Cyw o Frid', 'Dwylo Blewog', 'Y Merlyn Main', 'Y Saeth Coch' a 'Y Nogio ym Mhenygarn' yn llwyddiant ysgubol a llwyfannwyd hwy ar hyd a lled y gogledd. Roedd y cwmni erbyn hyn wedi sefydlu eu hunain fel cwmni drama o'r safon uchaf, a gwelwyd festrioedd a neuaddau ymhell ac agos yn orlawn cyn agor y llenni. Roedd teithio i ardaloedd fel Amlwch ac Aberdaron hefyd yn golygu nosweithiau hwyr a blinedig i'r cwmni, yn enwedig i'r mwyafrif oedd angen codi'n cynnar y bore canlynol.

Er mai rhan amser oedd y cwmni, roedd actorion eithriadol o dalentog yn eu plith, yn enwedig Robert Morris Jones, 'Cyrnant Lodge'. Ef oedd prif gymeriad a seren y cynyrchiadau, a dywedwyd i Wil Fôn ganoli y rhan helaeth o'i ddramâu ar gyfer dawn a chymeriad Bob Morris. Disgrifiwyd ef gan y Dr John Gwilym Jones fel un gyda'r synnwyr amserau gorau yng Nghymru. Aelodau eraill o'r cwmni hynod dalentog yma oedd pobl fel Gwladys Lewis, Emlyn Davies, R. Gwynn Davies, Mwynwen Jones, Carrie Prys Jones, Mary Lloyd Jones, Winnie Lloyd Jones, Robert Edwin Jones, Tom Ellis Jones, Tom H. Williams (Tom Garreg Fawr), James Llewelyn (Jim Post), John Leathley Jones a John Awstin Jones.


Yn dilyn marwolaeth Bob Morris yn 63 oed yn 1955 gadawyd blwch, un mae'n debyg oedd bron yn amhosib ei lenwi. Roedd colli Bob yn ergyd aruthrol, ac yn raddol daeth Cwmni Drama Waunfawr i ben y daith gan roi terfyn ar un o gwmniau mwyaf poblogaidd a llwyddiannus i berfformio ar lwyfannau gogledd Cymru.


Wedi ymddeol fel athro mathemateg yn Ysgol Brynrefail Llanrug, canolbwyntiodd William Vaughan Jones a'i wraig, Mary, ymysg diddordebau eraill, ar astudio ac ymchwilio hanes cynnar y Waunfawr a'r ardaloedd o gwmpas. Mae'r ddyled i Wil a Mary Fôn am eu cyfraniad o'r astudiaeth a'r gwaith ymchwil sydd heddiw ar gof a chadw yn enfawr ac amhrisiadwy, nid yn unig i bentref y Waun ond hefyd i Gymru gyfan.


William Vaughan Jones 1906-1978

Mary Vaughan Jones 1917 – 2002


Gwilym Morris Jones
















# Ehangu Gorwelion




*Y Parchgn Tom T Defis (gyda'r gyfrol) Wynn Vittle yn cyflwyno'r siec i Judith Morris, Ysgrifennydd Undeb Y Bedyddwyr*

Yn Awst 2014 cyhoeddodd Swyddfa Cymorth Cristnogol Caerfyrddin, y gyfrol, Ehangu Gorwelion, gan Wynn Vittle. Mae'r llyfr yn olrhain hanes Cymorth Cristnogol yng Nghymru gydag argraffiadau personol yr awdur, a fu'n Ysgrifennydd Cymru i'r Mudiad am ddeunaw mlynedd, ynghyd â'i brofiadau o'i ymweliadau â deg o wledydd ar ran Cymorth Cristnogol.


Trefnwyd y byddai unrhyw elw o'r gwerthiant yn cael ei gyflwyno i brosiectau a gefnogir gan Gymorth Cristnogol. Bu'r ymateb i'r gyfrol yn hynod dderbyniol. Bellach, medrwn gyhoeddi bod gwerthiant y llyfr wedi sicrhau £4,000 tuag at Raglen Iechyd Mamolaeth a gefnogir gan Gymorth Cristnogol yng ngwlad Ghana, Gorllewin Affrica.

Gan fod apêl enwadol Undeb Bedyddwyr Cymru yn 2016 tuag at y rhaglen hon yn Ghana, penderfynwyd bod yr elw o werthiant y llyfr i'w gyflwyno drwy apêl y Bedyddwyr.

Bu darllen y gyfrol yn fodd i ehangu meddyliau'r darllenydd gyda gwybodaeth am ddechreuadau Cymorth Cristnogol yng Nghymru a thu hwnt. Bydd elw'r gwerthiant hefyd yn fodd i ehangu bywydau cannoedd o deuluoedd difreintiedig Ghana, lle mae 380 o bob 100,000 yn marw adeg genedigaeth.

I geisio gwella'r sefyllfa druenus hon bydd cyflwyno elw'r gyfrol i'r Apêl yn fodd i achub bywydau mamau a babanod heddiw a chenedlaethau yfory yn Ghana.

Mae ychydig o gopïau o'r llyfr ar ol am £9.95. Os dymunwch gopi, cysylltwch â Swyddfa Cymorth Cristnogol, 75 Heol Dŵr, Caerfyrddin SA31 1PZ (ffon: 01267-237257; e-bost: caerfyrddin@cymorth-cristnogol.org



# Hyn ac Arall
# Pen yr Wyddfa, neu'n Hytrach ei Chopa!

Dydy hi heb fod â'i phen yn y golwg heddiw. Daeth cymylau i'w chuddio. Nid ydyw felly bob amser chwaith. Yn y Blaena rai blynyddoedd yn ôl clywais rai o drigolion da y dre'n dweud, pan geid cwmwl tros y Moelwyn, bod 'rhen fynydd yn gwisgo'i gap!

Gweinidog gyda'r Annibynwyr, a aned yn ardal Tegryn, Llanfradach, 'rhen sir Benfro, ydyw W. Rhys Nicholas, ac yn y gyfrol Beirdd Penfro (1961) ceir cerdd ganddo sy'n sôn am yr Wyddfa:

Fel glywais sôn amdanat lawer gwaith,

Mai ti oedd brenhines Eryri faith.

A deuthum i'th weled, gan dybio'n siŵr

Y byddit yn derbyn edmygedd gŵr.

Fy siomi a wnaethost drwy'r dyddiau hyn,

A chadw dy ben yn y cwmwl gwyn.

Ond heddiw, a minnau'n cychwyn o'r fro

Fe dynnaist dy het a dweud Helo!

Ia! y mynydd uchaf, ran ei uchder yng Nghymru ein gwlad, ac yn haeddu het yn hytrach na chap er mwyn talu teyrnged iddo!

Yng nghylchgrawn misol Cymru, rhifyn mis Rhagfyr y flwyddyn 1990, ceir Gruffudd Prisiart, Beddgelert, yn traethu fel a ganlyn mewn ysgrif o'i eiddo, a sgwennwyd tua'r flwyddyn 1859:

Mewn perthynas i ffurf y Wyddfa, y mae yn ymddangos i'r edrychydd yn bur wahanol. Wrth i'r arsyllydd edrych arni o un cyfeiriad ymddengys iddo fel colofn dair onglog, yn debyg i'r bidog, yn meinhau yn rheolaidd tuag i fyny. Wrth syllu o bwynt arall, ymddengys fel astell deneu – llydan yn ei gwaelod ac yn meinhau yn afreolaidd tuag i fyny. Ymddengys o le arall yn hanner cron, fel cunog laeth, neu ysten odro fawr a chlust uchel wrthi...

Ond mae iddi ei chorun, ac i'w weld yn yr amlwg pan na cheir cymylau'n ei amgylchynu!

Yna, y mae Gruffudd Prisiart yn ein cyfeirio at sylw o eiddo Gutyn Peris:

Mae dau ben ar y Wyddfa, a hwn yw y pen gogleddol iddi. Mae Bwlch Glas rhwng hwn a phen yr Wyddfa. Mae Carnedd Igyn (Ugan neu wgan) os edrychir o amryw fannau ym Môn yn ymddangos yn uwch na phen y Wyddfa, ond llawer is ydyw.

Ebe Gruffudd Prisiart:

Uchder Carnedd Igyn yw 3,500 troedfedd, ac fel un a ŵyr am y profiad o fod yno dywed y gŵr o Feddgelert:

Wedi cyrhaeddyd pen y Wyddfa, bron na chewch rhyw dâl am eich siwrnai bob amser.

Ie! hyd yn oed os bydd yno gwmwl isel!

Nosweithiau lloer y cynhauaf ym Medi yw yr adeg oreu i fod yn sicr am olygfeydd diderfyn o lynnoedd, afonydd, moelydd, bryniau, mynyddoedd, cymoedd, nentydd, pentrefi – a holl odidowgrwydd yr haul wrth godi. Cewch weled ynysoedd Môn a Manaw; y Fenai hardd; Trwyn y Gogarth; Morgilfach Cantre'r Gwaelod o'r Bermo i Bwllheli, ynghydag Ynysoedd Tudwal Sant; Pigau yr Eifl ar ddyddiau tesog braf, cyffredin. Ond ar ddyddiau clir, cewch weled Trwyn Tyddewi, draw dros Foel Hebog, rhannau de-ddwyreiniol o'r Ynys Werdd a mynyddoedd Cumberland, ac yn y blaen, yn y gogledd, a dalier sylw:

(a'r tywysyddion sydd mewn golwg yn bendifaddau!) Bydd y bechgyn fydd yn arwain y Saeson yn ymfflamychu y cânt weled tir yr Alban, gan dybied y cred Saeson bopeth.

Ar hynna o druth, a gan nad oes gen i het mwy na chap, codaf fy nghap gwlanan cwnffon cwningan, un tra chynnas, a brynais mewn siop o eiddo Cymry Cymraeg yn Llanber, a'i chwifio uwch fy mhen, a mynd ati i gyhoeddi'n uchel, un copa neu mwy na hynny – y mae'r Wyddfa, ar ddiwrnod glawog-gymylog, neu fel arall pan fo hi'n desog, yn llawn haeddu cael ei galw, fel y gwnaeth W. Rhys Nicholas, yn frenhines Eryri!

Dafydd Gruffudd Ifan



Royal Victoria Hotel LLANBERIS
www.theroyalvictoria.co.uk
Dathliadau • Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
Pwyllgorau • Bwydlen Bar • Cinio Dydd Sul
• PRIODASAU •
Ffôn- 01286-870253
enquiries@theroyalvictoria.co.uk
The ROYAL VICTORIA HOTEL Snowdonia

POSH PAWS
TACLUSO CWN
Busnes Newydd Lleol
PRYNHAWNIAU neu NOSWEITHIAU 4-10
DYDD SUL 8YB-4YP
Gwasanaeth Casglu a Danfon
Ty'n Llan Uchaf, Llanddeiniolen
(01248) 671382 • 07935324193
ebost- juliaposhpaws@btinternet.com

SAMARIAID
Mae
Llinell Gymraeg
0300 123 3011
ar gael bob nos
rhwng
7.00pm ac 11.00pm

# ECO'r Wyddfa O'r Cynghorau

## Cyngor Cymuned Llanddeiniolen

Gwasanaeth Bws - Croesawyd Llinos Roberts a Rhian Wyn Williams o Adran Gludiant Cyngor Gwynedd i'r cyfarfod i drafod gwasanaeth bws yr ardal.

Rhiwlas - Amlinellwyd bod dipyn o broblemau yn ardal Rhiwlas, bys ddim yn troi fyny, yn hwyr , dim trefn, ac nad yw'r amserlen gywir yn cael ei arddangos.

Esboniodd yr adran, fod yn rhaid i bobl gwyno neu does posib iddynt wybod am y problemau. Nid oes gan y cyngor reolaeth ar fws 85 gan nad yw gwasanaeth y ffordd hon ddim ar gontract i'r cyngor. Mae yr amserlen gywir wedi ei gosod erbyn hyn, ac mae yna ofyn cyfreithiol ar yr amseroedd hyn.

Penisarwaun – Y gŵyn fwyaf ym Mhenisarwaun yw nad oes bws ar gael ar ôl tua 6 yr hwyr. Mae llawer o bobl ifanc yn defnyddio y bws os buasai ar gael i fynd i'r clwb ieuenctid ac ymweld a ffrindiau ayyb. Yr ymateb a roddwyd oedd nad oes gan gwmniau ddiddordeb mewn rhedeg gwasanaeth bws gyda'r nos, oherwydd diffyg defnydd yn cael ei wneud o'r gwasanaeth.

Mae'r cyngor yn talu oddeutu 36% o 1.5 miliwn at y gôst o gynnal gwasanaeth bws fel y mae.

Deiniolen - Mae gwasanaeth bob awr o Ddeiniolen i Fangor a Chaernarfon yn ystod y dydd, ac mae defnydd da yn cael ei wneud o'r gwasanaeth hwn, ac yn arbennig felly i'r gwasanaeth sydd yn mynd heibio Ysbyty Gwynedd, serch hynny maent yn gweld colli y gwasanaeth ar nos Sadwrn

Bethel – Mae Bethel yn un o'r pentrefi hynny yn yr ardal lle mae'n bosib cael bws yn hwylus i Gaernarfon neu Fangor gydol y dydd, ond eto mae'r gŵyn nad oes bws gyda'r nos, ac o bosib fod cymdeithasau o fewn ein pentrefi yn dirywio oherwydd hyn.

Gofynnwyd pa bosibilrwydd y buasai efallai rhedeg bws bach 12 sedd gyda'r nos. Buasai rhaid cael bws arbennig gan ddilyn y camau statudol cyfreithiol sydd yn bodoli i redeg gwasanaeth cludiant cyhoeddus.

Mae gan yr adran gludiant holiaduron ar hyn o bryd sydd ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd neu ar eich bws lleol.

Mae'r adran hefyd yn cydweithio gyda 2 arolygwr. Buasai'r adran yn falch o glywed am unrhyw broblem mae pobl yn eu wynebu yn wythnosol ar y gwasanaeth, er mwyn ceisio gwella y gwasanaeth i'r cyhoedd.

Diolchwyd i'r ddwy gan y cadeirydd.

Materion o'r cofnodion

Biniau Halen – Yn dilyn ysgrifennu at Un Llais Cymru ynglŷn a chael cytundeb i ail lenwi y biniau halen yn awtomatic hynny ydi derbyn yr un gwasanaeth, ond bod Cyngor Cymuned yn gyfrifol o ariannu y gost, mae llygedyn o obaith ac yn disgwyl i glywed gan Cyngor Gwynedd.

Seddi Gwag – Ymhellach, i ennyn diddordeb pobl yr ardal i lenwi y seddi gwag, cynigiwyd ein bod yn gyrru llythyr i gymdeithasau y plwyf i ddweud fod etholiad Cyngor Sir ac ethol cynghorwyr cymunedol mis Mai eleni, i godi ymwybyddiaeth o hyn.

Baw Ci Mynwent Macpela – Derbyniwyd llythyr gan Wynedd yn dilyn y gŵyn am berchnogion yn gadael i'w cŵn faeddu yn y fynwent. Buasai unrhyw dystiolaeth yn gefnogol iawn yn y mater yma.

Neuadd i'r Eglwys ym Mhenisarwaun – Derbyniwyd llythyr gan y Parch. Carol Roberts yn datgan bwriad yr eglwys i chwalu'r hen neuadd yr eglwys ym Mhenisarwaun ac adeiladu un newydd i adeilad yr eglwys. Bydd swyddogion yr eglwys yn rhoi cais cynllunio i Gyngor Gwynedd yn y dyfodol agos.

Gohebiaeth a materion eraill

Aelodaeth Un LLais Cymru – Penderfynwyd yn unfrydol ail danysgrifio. Yn ystod y flwyddyn sydd wedi mynd heibio, mae'r cyngor wedi derbyn cefnogaeth drwy hyfforddiant, gwasanaeth cefnogol, a gwybodaeth.

Gwasanaeth Llyfrgell Symudol. – Derbyniwyd llythyr yn gofyn am awgrymiad o leoliad mwyaf addas i'r gwasanaeth lyfrgell symudol, pan fydd y gwasanaeth presennol yn dod i ben. Penderfynwyd mai y lle mwyaf addas fuasai yn y maes parcio ger y llyfrgell bresennol, ac y dylai gwasanaeth fod ar gael yno unwaith yr wythnos.

Cynllunio

Ceisiadau a dderbyniwyd:

Bro Rhiwen, Rhiwlas – Cais llawn i godi 9 tŷ fforddiadwy, creu mynedfa gerbydol newydd, lôn stâd, llecynnau parcio a darparu llecyn chwarae.

Gwrthod ar sail ei fod tu allan i ffin datblygu, carffosiaeth – y tir yn wlyb. Problemau parcio yn yr ardal yn barod. Traffic mawr i fyny a lawr y lon yn cynnwys bysiau.

Tir tu cefn i Capel Bethel – Diwygiad o draenio'r tir

Ty Gwyn Waun Penisarwaun – Nodwyd bod sylwadau cryf wedi eu gwneud gan nifer yn byw yn yr ardal i wrthwynebu y cais a hynny ar wahanol agweddau, ac felly mae'r cais yn mynd ymlaen i bwyllgor cynllunio.

Rhiwlas – Mae mast gyda 4 desgyl lloeren ac ambell ddesgyl arall wedi ymddangos yn y cae tu cefn i Carreg y Gath. Does neb yn sicr pa bryd na pwy biau'r mast. Y clerc i wneud ymholiadau gyda'r adran gynllunio.

# ECO'r Wyddfa O'r Cynghorau

## Cyngor Cymuned Llanrug a Chwm y Glo

Yr Heddlu

Cafwyd cyflwyniad gan Swyddog Cymunedol yr Heddlu, Janice Williams. Amlinellodd ei rôl ac egluro'r ardal mae'n gyfrifol amdani sy'n ymestyn o Nant Peris, Llanberis, i lawr i Gwm y Glo, Llanrug, Dinorwig, Llanddeiniolen a Bethel.

Dywedodd fod yr ardal yn eithaf distaw gyda digwyddiadau yn amrywio o fân droseddau ag ymddygiad gwrth gymdeithasol. Eglurodd fod perthynas dda gyda hi â ieuenctid yr ardal a bydd yn mynychu Clybiau Ieuenctid yn gyson. Pwysleisiodd fod croeso i'r aelodau gysylltu â hi yn uniongyrchol ar unrhyw fater ar ei ffôn ond fod yn rhaid i aelodau ddefnyddio 101 neu 999 mewn adegau pan fod angen adrodd am drosedd. Yn dilyn hyn, cafodd yr aelodau gyfle i'w holi am nifer o faterion.

Materion Cynllunio

Doedd dim gwrthwynebiad i'r ceisiadau cynllunio canlynol:

1. Cais tystysgrif defnydd cyfreithlon i ddefnyddio siale fel uned fyw barhaol - Sŵn Yr Afon, Llanrug.
2. Codi estyniad un llawr ochr - Pen y Lan, Llanrug.

Tendr am waith torri gwair y Fynwent, meysydd chwarae a'r llwybrau cyhoeddus

Penderfynwyd sefydlu pwyllgor i ystyried y ceisiadau am dendr yn syth ar ôl y dyddiad cau.

Clirio'r afon rhwng Ogwen, Ffordd Llanberis a Ffordd Glanffynnon, Llanrug

Adroddwyd fod cryn olwg mewn rhai mannu o'r afon a bod angen ei glirio. Adroddwyd fod cyllideb mewn lle a phenderfynwyd symud ymlaen a'r gwaith.

Etholiadau Gwynedd

Eglurodd Y Cynghorydd Sir dros Lanrug, Charles Jones, fod y Comisiwn Ffiniau yn cynnal adolygiad o'r ffiniau etholaethau Sirol a bod dewis gan y Cyngor Cymuned i gefnogi un o'r trefniadau isod:

a) Cadw at y drefn bresennol, gydag un Cynghorydd Sir dros Lanrug ac un arall dros Gwm y Glo; neu

b) Ddau Gynghorydd dros Lanrug a Chwm y Glo ond byddai'r ddau gynghorydd gyda chyfrifoldeb dros Lanrug a Chwm y Glo.

Penderfynwyd fod Cyngor Cymuned Llanrug yn ffafrio'r drefn bresennol, sef un aelod dros Llanrug ac un aelod dros Gwm y Glo a byddai'r Clerc yn ymateb i lythyr Cyngor Gwynedd i'r perwyl yma.

# Un funud fach ...

## MARTIN MCGUINESS

Roedd un o bapurau amlycaf gwasg y gwter wrthi eto drannoeth marw Martin McGuiness, a fu'n Ddirprwy Brif-weinidog Gogledd Iwerddon hyd at ei ymddiswyddiad ym mis Ionawr. Roedd wedi gweithio'n galed ers blynyddoedd er sicrhau cymod a heddwch yn ei wlad. Cefnodd ar flynyddoedd o drais i ddilyn ffordd cymod a chyfaddawd. Trwy wneud hynny, enillodd barch ac edmygedd pobl oedd wedi eu hystyried eu hunain yn elynion iddo am flynyddoedd. Daeth yn wleidydd dylanwadol a gyfrannodd yn helaeth at yr ymdrech i greu Iwerddon wahanol a gwell. Nid anghofiodd Martin McGuiness y rhyfela a'r trais a welodd ac y bu ef, dros gynifer o flynyddoedd, yn byw yn ei ganol. Ni allai anghofio'i orffennol ei hun, ddim mwy nag y gallai anghofio'r hyn a wnaed i'w gymuned ac i'w bobl. Ers blynyddoedd, ac ymhell cyn ei farw, roedd pobl o bob perswâd gwleidyddol wedi medru cydweithio ag ef gan ddod i werthfawrogi ei ddoethineb, ei allu, ei foneddigeiddrwydd a'i gywirdeb. Gallai yntau werthfawrogi pobl a fu yn elynion ond a ddaeth yn gydweithwyr ac yn gyfeillion iddo.

O gael cip sydyn ar benawdau'r papurau newydd drannoeth ei farw gwelwn mai pennawd un papur arbennig oedd 'Unforgiven'. Sôn am wenwyn! Sôn am anwybyddu ugain mlynedd o wasanaeth i Gynulliad Gogledd Iwerddon, yn cynnwys deng mlynedd fel Dirprwy Brif-Weinidog! Gall penawdau ymfflamychol o'r fath wneud niwed mawr trwy ail agor hen greithiau, ac yn yr achos arbennig hwn ddallu meddyliau pobl i'r cydweithio cymodlon y bu Martin McGuiness ac eraill ynglŷn ag ef ers ugain mlynedd a mwy.

Nid yw'n syndod yn y byd na all rhai pobl o bob perswâd gwleidyddol faddau llawer o'r pethau a wnaed yng Ngogledd Iwerddon tros flynyddoedd blin y brwydro. Gwyddom yn rhy dda am bobl sy'n methu maddau pethau llai o lawer! Y syndod yw bod pobl wedi medru rhoi'r gorffennol a'i ryfela o'r tu cefn iddynt a chydweithio i greu byd a chymdeithas fwy gwâr a mwy cyfiawn.

Diolch am hynny, nid eiddo'r un papur newydd na'i olygydd na'i berchennog yr hawl na'r gallu i faddau, nac ychwaith i gyhoeddi pwy sy'n derbyn maddeuant. I Dduw y perthyn yr hawl a'r gallu hwnnw yn hanes Martin McGuiness a phawb ohonom ninnau. Cysur mawr yr Efengyl yw bod Duw yn maddau pob bai i'r edifeiriol. Y rhyfeddod pennaf i Gristnogion yw bod Duw yn maddau'r gwaethaf a wnawn ac a feddyliwn, ar yr amod ein bod yn cydnabod ein beiau ac yn ceisio'i faddeuant.

Mae'n bosibl na fydd pobl eraill yn barod i faddau i ni, yn union fel y bydd rhai ohonom ninnau ar brydiau'n gwrthod maddau. Ond nid yw'r ffaith na chawn faddeuant pobl yn golygu bod maddeuant Duw wedi ei atal rhagom.

JOHN PRITCHARD

# Addewid

A'r tymor heb ei benffrwyn,
y mae arwyddion clir
fod hen ffiws glas y gwanwyn
am suro trwy y tir.

Mae'r brain yn twtio'i llofftydd
hen dolpis du – pob nyth
a hel hen bricia newydd
a'u plethu yno'n syth.

Mae coedydd cyll a gwernen
yn llawn cynffonnau rhydd,
catginau i'r amserlen,
pob awel – bendith fydd …

Ond sicrach yw prydferthwch
pur y lili-wen-fach
yn concro byd y twyllwch
a her eu canu iach.

Gŵyl Dwynwen a San Folant
pryd serch gobeithiol gwiw,
dwêd sisial coed a chornant
'a dod mae'r deffro triw'

Er gwaetha'r rhagolygon
daeth tractor at ei dasg:
Dydd Dewi a'i anerchion
a thoc – Grawys a'r Pasg!

Norman Closs

# Gwanwyn Cynnar?

Goeliwch chi fod y gog wedi ei chlywed yn y fro eisoes? Na, nid stori Ffŵl Ebrill mohoni. Am un funud i chwech yr hwyr, nos Fawrth 21ain o Fawrth - y diwrnod cyntaf o wanwyn yn digwydd bod, clywodd Lleufer Pritchard y gog yn canu yng nghefn ei gartref yn Stâd Croes y Waun, Waunfawr. Yn ddiweddarach yn y mis, daeth adroddiad cyffelyb gan wraig o Ddeiniolen, a gredai iddi glywed y gog yn gynnar un bore tra'n mynd â'r ci am dro. Ymatebwch naturiaethwyr!

GERAINT OWEN
CARPEDI
CARPEDI • VINYLS • TEILS
CANOEDD O BATRYMAU I DDEWIS
A RHAI MEWN STOCK
Cil y Mynydd Waunfawr Gwynedd
A Uned 5 Gwyrfai Mill Bontnewydd
(01286)650552 Mob. 07712779475

# Ar ben arall i'r lein




Gyda'r drws wedi agor ar dymor arall ers 3ydd Mawrth, mawr oedd y disgwyliadau am ddechrau tymor llwyddiannus i roi hwb a hyder inni oll ar gyfer gweddill y flwyddyn ond, yn anffodus, 'roedd yr hogiau 'na, sef Morus y Gwynt ac Ifan y Glaw ar waith. Er gwaethaf eu bygythiadau mi 'es lawr y Finiog am rhyw ddwy awr, a'r unig un arall a welais allan oedd Clifford Thomos o'r Felinheli. Ofer oedd ein ymdrechion a rhaid fydd i'r badell ddisgwyl i'r tywydd gynhesu rhyw ychydig er mwyn rhoi hwb bach i'r pryfetach ddechrau deffro. Wel fel yna mae hi ym myd y brithyll brown o leiaf. Ond i'r rhai sy'n ymddiddori yn y grefft mae byd brithyll yr enfys yn hollol wahanol, rhain yw'r pysgod sy'n hoffi tipyn o oerfel ac yn fodlon codi i'r bluen er gwaethaf y tywydd.

A dyma oedd hi eleni - ar 6ed Mawrth fe gastiodd Brian Thomos o Fethel ei bluen ar Finiog, dan Bont Crawia, a dyma frithyll yr enfys harddaf erioed yn ei brathu. 'Sgodyn arian a phorffor am dri pwys a hanner. Fel 'sgotwr cydwybodol fe ryddhawyd y brithyll i un o danciau'r ddeorfa, yn dyst i'w fedrusrwydd! Y cwestiwn sy'n rhaid ei ofyn, fodd bynnag, yw o ble daeth 'sgodyn fel hyn? Does dim o'r brithyll yma wedi bod yn y ddeorfa ers dwy flynedd neu fwy, felly mae dihangfa o'r fan honno allan o'r cwestiwn. Yn unig beth sy'n gwneud synnwyr yw bod rhywun yn y dalgylch wedi stocio rhai mewn llyn bach neu bwll preifat ar hen fois wedi rhoi tro arni am y Seiont. Gobeithio bod llawer mwy o gwmpas canys dyma'r tro cyntaf inni gael rhywbeth am ddim o unlle. Ysgwn i oes na rai ym Mhadarn tybed? Dwi am roi tro arni yn go handi eleni. Dyma'r tro cyntaf ers rhai blynyddoedd imi fynd â'r cwch allan ar yr hen gyfaill.

Pethau yn gwella medda chi. Wel yndi, does dim cwestiwn am hynny. Mae'r afon yn prysur lanhau, ac mae'r gwaddod brown a oedd yn gorchuddio'r gwely a chafnau deori'r ddeorfa yn eithaf clir am y tro cyntaf er 1992. A fydd hyn yn parhau tybed, gan bod y caniatâd wedi dod i weld y ffordd yn glir i ddechrau arni i adeiladu gorsaf Glyn Rhonwy? Er bod teimladau cryf o bob ochr i'r penderfyniad yma - safbwynt y Gymdeithas ar hyn i gyd yw bod yn rhaid cael gwaith i'r fro, yn enwedig rhywbeth, o bosib, sy'n mynd i gadw ein pobl ifanc yn eu hardal enedigol. Y pryder mawr yw, yn anffodus, mae'r datblygwyr sydd tu cefn i ddatblygiadau fel hyn bob amser am fynd am yr opsiynau sy'n golygu y gwariant lleiaf posib er mwyn cael, ar y diwedd, yr elw mwyaf i'w pocedi eu hunain. Esiampl dda yw gorsaf Dinorwig. A oedd rhaid amddifadu'r dalgylch o'r afonydd magu'r eog, y brithyll a'r torgoch. Afonydd fel talp mawr o Afon Peris, y cwbwl o Afonydd y Bala a'r Dudodun. Oedd, mi oedd rhaid tynnu Pris o'r sustem ond os buasai gwell dyluniad wedi ei wneud i gadw'r afonydd eraill fel magwrfa ni fuasai problemau ein pysg mor ddrwg ac y maent heddiw.

Effaith Glyn Rhonwy ar y dyfroedd fydd arllwys dŵr sy'n ormodol i'w cynllun gwaith, bydd hyn yn digwydd i waelod Llyn Padarn gyda'r effaith o gynhyrfu'r algai sydd yn dadelfennu ar y gwaelod. 'Rwyf wedi egluro be fydd effaith hyn nifer o weithiau o'r blaen ond, wrth gwrs, does neb wedi yn cymryd mymryn o sylw. Amser a ddengys pan fydd yr orsaf yn gweithio - os aiff y datblygiad yn ei flaen ydi hyn, wrth gwrs. Yn ogystal â'r effaith ar Padarn mae arllwysiad arall i gymryd lle, sef i Nant y Betws sy'n rhedeg i'r Afon Gwyrfai. Mae'r Gwyrfai wedi ei dynodi fel safle o Safle Cadwraeth Arbennig, a dyna faint o sylw sydd wedi ei roi i'r dynodiad yma. Ceisiwch chwi fel unigolion dorri hyd yn oed brwynan ar safle o'r fath a mi fuasai holl rym ein llywodraeth yn eich erlyn. A oes gwirionedd mewn pawb yn gyfartal 'dwch. Mae gwir yn y dywediad, 'Mae rhai yn fwy cyfartal na'i gilydd'

Bydd yn Gymdeithas yn ceisio cyfarfod â Cyfoeth Naturiol Cymru yn yr wythnosau nesaf i gael gwybodaeth a sicrwydd y bydd y bysgodfa yn cael ei diogelu. Mi adawaf i chi wybod beth fydd eu ymateb. Un peth sy'n sicr, fodd bynnag, yw y bydd cost trwydded 'sgota'r wlad yn codi o Ebrill ymlaen, dim ots be di'r problemau. Mae manylion am hyn oddi mewn i'r tudalennau Chwaraeon.

Mae'n wir dweud bod rheolaeth ar warchod pysgodfeydd drwy'r DU ac Iwerddon mewn tipyn o argyfwng. Diffyg gweledigaeth a rheolaethu gan sefydliadau sydd wedi eu penodi gan lywodraethau i warchod a datblygu y byd pysgodfaol, ond yn anffodus maent i gyd yn gweithredu eu agenda eu hunain, ar agenda honno yw i warchod y llywodraethau eu hunain rhag beirniadaeth.

Yma yng Nghymru a Lloegr mae llygredd, coedwigaeth a rhai dulliau o amaethyddiaeth allan o bob rheolaeth, yr un fath yn yr Iwerddon a'r Alban ond gyda'r ychwanegiad yno o'r niwed mae ffermydd magu eog y eu cael. Nid yn unig ar yr eog a'r brithyll môr ond hefyd ar ddyfodol casglu'r cregyn bylchog a physgodfeydd y glannau a'r aberoedd. Mae nifer o ymddiriedolaethau yn ymdrechu'n galed i geisio cael ein cynrychiolwyr i sylweddoli'r difrod sy'n digwydd, ond mae'n eithriadol o anodd cael llywodraeth i newid cyfeiriad.

Er hyn i gyd mae tipyn o hwyl i'w gael wrth fynd yma ac acw i drio llefydd newydd i 'sgota, a do dwi 'di bod yn ffodus dros ben o gael ymweld â llawer o leoliadau yn yr Alban, Iwerddon, Canada ac Alaska a gwneud ffrindiau â physgotwyr lu. Oes, mae hwyl a sbri a chyfeillgarwch i'w gael yn llefydd yma. Ond mewn gwirionedd does unlle cystal am y crac nac yma yn lleol. Oedd mi oedd y Gors Bach, cyn i'r lle newid cyfeiriad o fod yn dafarn, yn gylchfan arbennig i 'sgotwrs y fro. Fe symudwyd y stondin i'r Bedol yma ym Methel ond cwta flwyddyn yn ôl cau fu hanes yr hen le, felly ar y funud 'rydym, fel pysgotwyr lleol, yn amddifad o le i gasglu a chael tipyn o hwyl. Efallai yn go fuan y bydd drws y Bedol yn ail agor, a bydd eto gyfeiriadau am y sgodyn mawr a gollwyd, ac efallai glec y gynghanedd i fynd gyda'r cwbwl. Sgwn i be fydd gan Gari Wyn i'w ddweud am hyn.

Hwyl tan mis nesaf

Huw Price Hughes.

Ffenestri CADNANT Windows
iorwerthwilliams@fsmail.net
DRYSAU ◻ FFENESTRI
A CONSERFATORIS UPVC
AMCANBRIS AMDDIM
13 Eryri, Bethel, Caernarfon, LL55 1BX 01248670833 • 07801346652

Gwasanaeth Gwres a Plymio
Ar Gyfer Eich Holl Anghenion Gwres A Plymio
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser
Arwel Jones - 1 Cefn Cynrig • Bethel • LL55 1UW
Tel. (01248) 674927 Mobile- 07798 746718

## WAUNFAWR Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

# Merched y Wawr.




Dechreuwyd y flwyddyn gyda chyfarfod yn y ganolfan ddiwedd Ionawr dan ofal Bethan Williams. Tipyn o dasg ydi paratoi cwis sy'n hwyl ond eto'n ddigon o her ond roedd Bethan wedi llwyddo i baratoi cwestiynau oedd yn achosi llawer iawn o chwerthin yn ogystal â chryn dipyn o grafu pen! Diolch yn fawr Bethan ond roedd y cwestiwn am y cathod yn slei iawn! Diolchwyd i Bethan gan Anita ac Iris a Menna oedd yn gofalu am y raffl a'r te.

Cynhaliwyd ein swper Gŵyl Dewi ar 2 Mawrth yng Nghaffi'r Antur a chafwyd noson braf iawn a lluniaeth syml ond blasus wedi ei baratoi gan y Pwyllgor. Uchafbwynt y noson oedd derbyn rhodd o fag i bob aelod i ddathlu pen-blwydd Merched y Wawr yn 50 oed. Cynlluniwyd y bagiau hardd a defnyddiol gan Rwth Jên ac fel mae'r llun yn dangos mae'r aelodau wrth eu bodd! Diolch yn fawr i Antur Waunfawr unwaith eto am gael defnyddio'r caffi clyd a chroesawgar.

Cynhelir ein cyfarfod nesaf yn y Ganolfan nos Iau, 27 Ebrill, am 7.30. Bydd Susan Peters yn dod atom i roi arddangosiad trefnu blodau. Croeso cynnes iawn i aelodau hen a newydd.

**Mawrth 31 HENO** yn Nhafarn Bryn Eirion, Waunfawr, am 7.30 o'r gloch cynhelir Ocsiwn er budd Cylch Meithrin y pentref. Dowch yn llu i gael bargen.

**Ebrill 1 YFORY** yn y Ganolfan am 12.30 y pnawn cynhelir Eisteddfod y pentref i'r plant dan 12 oed. Am 7.30 o'r gloch yr hwyr bydd y bobl ifanc a'r hen 'stagers' yn cystadlu. Dymunwn yn dda i bob un cystadleuydd. Manteisiwn ar y cyfle i ddiolch i'r rhai sydd wedi gweithio i ailgychwyn Eisteddfod yma yn y Waun.

**Clwb 300** Enillwyr y Clwb 300 am fis Chwefror oedd: £30: Mrs Gwenda Griffith, Trefeddyg; £20: Mr Neville Owen, Bryn Gwylan; £10: Mr Bryn Pritchard, Min y Grug.

**Yr Urdd** Llongyfarchiadau i'r Parti Llefaru ar ddod yn fuddugol yn yr Eisteddfod Cylch ac i Brython ac Osian am lwyddo yn eu cystadleuaeth. Llongyfarchiadau i chwithau a phob dymuniad da ichi yn yr Eisteddfod Sir.

**Ar y Teledu** Yn ystod mis Mawrth, gwelsom Rhodri Siôn, Tŷ Pen, Stad Llys y Waun, yn eistedd ar y soffa ar raglen Heno. Trafod taith y ddrama 'Y Glec' o amgylch Cymru yr oedd o. Dyma'r ddrama y mae o yn un o'r cast ynddi ar hyn o bryd.

Ar y rhaglen Cân i Gymru, gwelsom Meilir Gwynedd gyda'i gitâr yn chwarae rhannau cefndir i amryw o'r caneuon yn y gystadleuaeth.

Nos Lun, ar Sianel S4C mae'r rhaglen Bywyd y Fet gyda Huw Llŷr, Bodrida, yn trafod y digwyddiadau a'r triniaethau i'r anifeiliaid yn y cefndir.

Hefyd, o bryd i'w gilydd, ar y teledu gwelwn Elen Gwyn, Bodrida yn hysbysebu beth sydd ymlaen yn Theatr Pontio.

Ar safle BBC Cymru Fyw ddechrau mis Mawrth roedd Osian Gwynedd yn "ateb y galw" a'i ddewis o i "ateb y galw" yr wythnos ganlynol oedd Rhodri Sion.

Gwelwyd un arall o'r pentref ar y teledu hefyd. Yn ystod yr wythnosau diwethaf mae rhaglenni y ddau ffermwr, Wil ac Aeron yn Teithio yr Alban yn eu camperfan wedi ymddangos ar Sianel S4C. Nos Iau, Mawrth 9fed clywais un ohonynt yn dweud "Mae o'n dod o'r Waunfawr" a dyma ollwng popeth i wylio. Roeddynt yn croesi o'r tir mawr i Ynys Uist yn yr Hebrides ac yn cyfarfod â Cai Pritchard o'n pentref ni. Cawsom eu gweld yn mynd yn y cwch ar y môr mawr yn gwylio ac yn helpu Cai i ollwng y cewyll er mwyn dal y gor-gimychiaid. Drannoeth roeddynt yn ôl ar y môr yn casglu'r cewyll llawn ac yn trin y gor-gimychiaid er mwyn eu hanfon i'r marchnadoedd. Roedd y ddau o'r farn mai ffermio ar y tir mawr oedd y swydd iddynt hwy ac yn edmygu'r pysgotwyr dewr a phrysur.

Mae Cai a Lauren a'u mab bach, Alffi, yn byw mewn lle tawel iawn ac yn agos at Sam a Tegid, nain a taid Alffi. Cawsom gip o Tegid yn casglu gwichiaid a y traeth, roedd Sam yn ei gwaith. Bu Lleufer a Nelma, Stad Croes y Waun, Taid a Nain Cai, a'i chwaer Cara a'i fodrybedd Bethan a Nia yn gwylio'r rhaglen hefyd ac yn falch o'u gweld, rwy'n siŵr. Cofion cynnes atat, Cai, da dy weld a'r teulu bach. Cofia ni at dy fam a dy dad o'r Waun.

**Dathlu Pen-blwydd** Llongyfarchiadau i Dafydd Griffith, Dolydd, Stad Tŷ Hen, a fu'n dathlu cyrraedd ei ddeunaw oed yn ystod y mis. Dymuniadau gorau iti i'r dyfodol, Dafydd.

**Babanod Bach Newydd** Anfonwn ein dymuniadau da i Pete a Hawys ar enedigaeth mab bach, Meilir, brawd a mêt i Ceiri a Mabon. Dymunwn wellhad buan i Hawys wedi iddi fod yn sâl gyda niwmonia a gorfod mynd yn ôl i'r ysbyty ond mae adref erbyn hyn. Bu nain Nefyn yn brysur yn gwarchod Ceiri a Mabon.

Yr un yw ein dymuniad i Dafydd Rhys a Delyth ar enedigaeth eu merch fach, Ffion Angharad. Bydd Cadi wrth ei bodd yn helpu a magu ei chwaer fach. Mae'r ddau deulu yn byw yn Stad Llys y Waun a bydd eu perthnasau a'u ffrindiau yn siŵr o alw yn aml i'w gweld. Llongyfarchiadau ichi a chroeso i'r rhai bach. Mae nain Ffion a Cadi yn byw yma yn y Waun.

**Adref o'r Ysbyty** Croeso adref i Alma a Rob, Tan y Fron, wedi i'r ddau dderbyn triniaeth yn yr ysbyty. Mae'n dda eu bod yn gwella a braf eu gweld allan o gwmpas.

Gorfu i Mrs Beti Owen, Stad Tref Eilian, dreulio cyfnod yn yr ysbyty ond mae wedi cael dod adref ac yn gwella.

Bu Emma Clack, Teras Eilian yn yr ysbyty ond mae adref yn ôl gyda'i theulu ac yn gwella erbyn hyn.


Wedi iddi dreulio cyfnod yn Ysbyty Walton, Lerpwl, mae Tina Humphreys wedi cael dod yn nes adra i Ysbyty Eryri. Mae wedi cael dod adref i'r Waun am ychydig oriau yn ystod dau brynhawn at yr hogiau a mynd yn ôl i'r ysbyty i gael gofal wedyn. Rydym mor falch o weld dy fod yn cryfhau ac yn gwella. Tina. Dal ati.

AVW Advanced Vehicle Workshop
Arbenigwyr mewn ceir VW, Audi, Seat, Skoda & Porche
BOSCH Service
Gwasanaeth Lleol, Cyfeillgar a Phroffesiynol ers 1975.
Which? Trusted trader
01286 673559
Car Service
Zone 2, Cibyn Ind Est, Caernarfon, LL55 2BD - www.AVWBosch.co.uk

E. W. Pritchard
Trefnwyr Angladdau
CENTRAL GARAGE
LLANBERIS
FFON- (01286) 870202

# *Parhad* WAUNFAWR

## Ysgol Waunfawr





**Wythnos Cymru Cŵl** Cafwyd wythnos wych yn dathlu 'Cymru Cŵl' wythnos gyntaf mis Mawrth. Cafwyd amrywiol weithgareddau ac yn ôl ymatebion y plant roedd pawb wedi mwynhau yn fawr iawn yr hyn a drefnwyd ar eu cyfer. Diolch arbennig i Bethane Williams, actorion Rownd a Rownd a Nia Griffith am eu cyfraniadau. Diolch hefyd i'r rheini a ymunodd gyda ni yn ein Gorymdaith o gwmpas y pentref




**Yr Urdd Cynhaliwyd** amrywiol weithgareddau dros y tri mis diwethaf. Bu noson Bingo, addurno bisgedi i ddathlu Santes Dwynwen, sesiwn hwyl a sbri yn yr Hwylfan, gwaith llaw, noson ffilm a byddant yn mynd i nofio i Fangor ddiwedd y mis.

**Cynllun 'Efengyl i Fro'r Eco'** Dymunwn yn dda i Andrew Settatree a fydd yn rhoi'r gorau i'w swydd gyda'r cynllun uchod. Bu Andrew yn ymwelydd rheolaidd â'r ysgol dros yr wyth mlynedd diwethaf a diolchwn iddo am ei waith. Dymunwn yn dda iddo yn ei swydd yn ardal Llŷn ac Eifionydd. Yr un modd hoffem ddiolch i Mrs Susan Williams am gamu i'r bwlch, roedd disgyblion yr Adran Iau wedi mwynhau ei chyflwyniad yn arw yr wythnos hon.

**Prosiect Peillio** Mae'r ysgol yn rhan o brosiect Peillio gydag ysgolion eraill yn yr ardal. Rydym wedi derbyn grant i'w fuddsoddi yn yr ardd ac mae'r ysgol wedi penderfynu buddsoddi mewn sied i gadw'r offer garddio ar y cae. Os oes gan rhywun ddiddordeb yn ein helpu i ddatblygu'r ardd yn bellach cysylltwch â'r ysgol.

**Pêl Rwyd** Bu'r tîm pêl-rwyd yn cystadlu yng nghystadleuaeth yr Urdd ddiwedd mis Ionawr a hefyd yn nhwrnamaint Ysgolion Arfon.

**Beicio Blwyddyn 6** Derbyniodd disgyblion blwyddyn 6 hyfforddiant seiclo Lefel 1 a 2, diolch i'r hyfforddwyr o Gyngor Gwynedd.

**Eisteddfodau Cylch a Sir yr Urdd** Llongyfarchiadau mawr i'r plant a fu'n cystadlu yn Eisteddfod Cylch yr Urdd ddechrau mis Mawrth ym Mrynrefail. Da iawn chi, yn arbennig Brython, Osian a'r Parti Llefaru a fydd yn cystadlu yn yr Eisteddfod Sir ym Mangor ddiwedd y mis. Diolch i bawb, yn rhieni ac yn neiniau a theidiau a ddaeth i gefnogi.

**Eisteddfod Bentref** Cynhelir Eisteddfod Bentref Waunfawr ddydd Sadwrn ,Ebrill y 1af, am hanner awr wedi deuddeg y prynhawn. Gellir prynu y testunau yn siop y pentref.

**Myfyrwraig** Croesawn Mrs Lisa Williams yn fyfyrwraig o Brifysgol Bangor atom am gyfnod o dri mis. Bydd yn addysgu ym mlwyddyn 1 a 2 am gyfnod o 9 wythnos ac yna yn arsylwi yn nosbarthiadau CA2.


**Trydar** Dilynwch lwyddiannau'r ysgol ar Trydar ar ein cyfrif Trydar @ Ysgol Waunfawr

# Mwy o hanes chwaraeon Ysgol Brynrefail



## Cynhadledd Llysgenhadon Ifanc Arian Gwynedd

Cynhaliwyd cynhadledd gyntaf Llysgenhadon Ifanc Gwynedd yn Plas Tan y Bwlch ddechrau mis Chwefror. Trefnwyd y diwrnod llwyddiannus gan Lysgenhadon Aur Gwynedd gyda 4 o ysgol Brynrefail (Mair Loxton, Beca Llwyd, Ryan Robinson a Gethin Jones) Daeth dros 70 o ddisgyblion o ysgolion Gwynedd i gael eu hysbrydoli i fod yn arweinwyr chwaraeon yn eu hysgolion a cymunedau lleol a cafwyd o fraint o gael anturiaethwraig Lowri Morgan i fod o gymorth.




## Gwirfoddoli

Llongyfarchiadau i Ancel Davidson sydd wedi cwblhau dros 50 awr o oriau gwirfoddol i dderbyn tystysgrif gan 'Gwir Vol' Mantell Gwynedd. Ysbrydoliaeth i ddisgyblion eraill.

Diolch i Ceris a Beca am wirfoddoli mewn digwyddiad ras llwybrau yn Coed y Brenin yn ddiweddar.

## Cystadleuaeth Dringo

Daeth sesiynau dringo i ben gyda llwyddiant ysgubol yn y gystadleuaeth dringo i ysgolion Gwynedd eleni.

Merched blwyddyn 7 a 8 yn 1af

Bechgyn blwyddyn 7 a 8 yn 2il

Merched blwyddyn 9 a 10 yn 3ydd

Bechgyn blwyddyn 9 a 10 yn 2il





## Sky Sports

Trwy cynllun 'Sky Sports – Living for Sports' cafodd Cyngor Chwaraeon Ysgol Brynrefail gyfarfod gyda'r athletwr judo - Tom Davis fydd yn cydweithio mentora arwenyddion chwaraeon i'r dyfodol. Bydd Tom yn dychwelyd i'r ysgol i drefnu digwyddiad yn fuan.

## Tudalen Facebook

I gadw mewn cysylltiad, derbyn newyddion diweddaraf ar weithgareddau 5x60 ysgol Brynrefail dilynwch y dudalen Facebook @5x60Brynrefail

## Swyddog Rygbi

Croesawn Dafydd Roberts fel Swyddog Datblygu Rygbi yr ysgol. Mae sesiynau i ferched a bechgyn wedi eu hyschwanegu i'r amserlen gweithgareddau. Croeso aton ni Dafydd.

## RHEDEG MYNYDD

Ydi, mae'r cloc wedi ei droi ymlaen a'r gwanwyn wedi cychwyn. Ond i redwyr mynydd y cylch mae'n golygu hefyd fod tymor y Rasys Nos Fawrth yn ail-ddechrau. Ac erbyn i'r rhifyn hwn eich cyrraedd, bydd Ras Moel Tryfan eisoes wedi ei chynnal. Mae unarddeg ras arall y gyfres yn cychwyn am 7.15, gyda rasys plant hefyd ym mhob lleoliad.

Rasys mis Ebrill fydd: Aber (4ydd), Foel Lus, Dwygyfylchi (11eg), a Mynydd Mawr, Y Fron (18fed). Ras Pen Dinas, Nant Peris fydd y gyntaf ym mis Mai (2il).

Cofiwch gyrraedd yn ddigon cynnar i gofrestru.

Mae carfan rygbi'r Llewod Prydeinig ar fin cael eu dewis, sy'n atgoffa rhywun o'r gŵyn rai blynyddoedd yn ôl mai dim ond dau chwaraewr o'r Alban gafodd y fraint o deithio. A daeth ateb deifiol o Gymru: "Peidiwch a chwyno, dim ond dau o Gefneithin sy'n y garfan."

Gellir dweud yr un fath am fro'r "Eco" ym myd rhedeg. Llongyfarchiadau i Gareth Hughes a Mathew Roberts ar gael eu dewis i gynrychioli Tim Prydain ym Mhencampwriaeth Rhedeg Llwybrau Hir y Byd ym mis Mehefin yn yr Eidal – a dim ond deg o redwyr fydd yn y tim. Felly mae'r ganran yn dipyn uwch na chwaraewyr rygbi Cefneithin! Enillodd y ddau eu lle yn y tim yn dilyn eu perfformiad yn ras Haworth, Swydd Efrog, gan orffen yn ail a thrydydd mewn ras yn cynnwys goreuon rhedeg mynydd a llwybrau Prydain.

Yn ystod y mis daeth Gareth yn fuddugol hefyd yn Ras yr Aran, Llanuwchllyn, mewn tywydd echrydus.

## 'DON'T TAKE ME HOME'

Dyma'r gân ddaeth yn ail-anthem i gefnogwyr pêl-droed Cymru yn ystod rowndiau terfynol Pencampwriaeth Ewrop yr haf diwethaf. Dyma hefyd deitl y ffilm ddogfennol o'r profiad sy'n teithio'r sinemâu ar hyn o bryd. Yn rhyfeddol, ple bynnag mae'r ffilm wedi ei dangos mae'r neuaddau/sinemâu wedi bod yn llawn. Denwyd teuluoedd ac, yn amlwg, nifer a fu allan yn Ffrainc ac oedd eisiau ail-fyw y profiad.

Draw i Pontio yr es i am 8.15pm ar nos Sadwrn gwlyb. Wel, am brofiad. Yn agos i 400 yn bresennol, yn eu crysau pêl-droed a'u sgarffiau. Amlwg, ambell i wraig a fu draw, neu oedd eisiau cael gwybod am helyntion gwŷr a groesodd y Sianel!

Lle tawel yw sinema fel arfer ond nid felly yma. Curo dwylo, cyd lafar-ganu y siantiau pêl-droed ac, wrth gwrs, clywed lleisiau unigol yn uniaethu ac ambell olygfa. "Ti'n cofio'r pyb yna?" "Na ni yn fanna." "Cymru, Cymru..." " Kanu, Kanu, Robson-Kanu..." A sôn am Kanu, pobl ar eu traed pan ddangoswyd y 'tro' a'r gôl wefreiddiol yn erbyn Gwlad Belg.

Noson o ail-fyw ac ymfalchio oedd y noson hon, a gwerthfawrogi celfyddyd y sawl â luniodd gofnod arbennig iawn.

Roedd y ffilm yn cychwyn gyda theyrnged sensitif iawn i'r diweddar Gary Speed, yn pwysleisio y sylfaen gadarn yr oedd wedi ei sefydlu drwy gyflwyno chwaraewyr ifanc i'r garfan genedlaethol, ac yna dangos ffydd ynddynt. Cyfeiriwyd hefyd fel mae system meithrin Cymru drwy y gwahanol oedrannau wedi ei llunio'n gelfydd dan arweiniad Osian Roberts. Mae'r rhan yma o'r ffilm yn gorffen yn ddadlennol iawn gyda Chris Coleman – wedi cryn hunan holi - yn dod i'r penderfyniad mai nid dilyn patrymau Gary Speed oedd y ffordd ymlaen ond dangos digon o ffydd i osod ei stamp ei hun ar y dyfodol – yr holl ffordd i Rwsia gobeithio.

Dyma ffilm wnaiff apelio nid yn unig i ddilynwyr pêl-droed – dyma gostrelu Cymreictod, ymdrech, cyd-ddyfalbarhau a pharch mewn un profiad theatrig. Ewch i'w gweld ar bob cyfrif.

# Chwaraeon

## GOBAITH CWPAN O HYD

Mae taith Waunfawr yng Nghwpan Iau yr Arfordir yn parhau gyda goliau Elis Povey a Shaun Roberts draw yn y Rhyl yn danfon y Beganifs i wynebu Llanfairfechan o gynghrair Dyffryn Clwyd yn y rownd gyn-derfynol. Rhaid aros am fis arall tan y gêm honno, a gobeithio y bydd newyddion da yn rhifyn nesaf yr Eco. Bu cryn sôn am 'Grand Slam' yn ddiweddar. Dyna'n wir fuasai camp os bydd Waunfawr yn codi'r tlws ac ymuno â Llanberis, Llanrug, Deiniolen a Bethel fel enillwyr. Amheus nad oes unrhyw fro hyd y Gogledd yn gallu honni'r fath lwyddiant.

Gemau bara-menyn y gynghrair i hogia'r Waun am fis, a gobeithio am ganlyniadau i'w codi i fynu'r tabl. A gyda pherfformiadau cyson codi hyder ar gyfer y 'gêm fawr'.

Prin fu gemau Llanberis yn ddiweddar a daeth y glaw trwm i achosi gohirio'r gêm yn erbyn Llangefni.

Deja-vu fu hi i Lanrug. Fel Llanberis, roedd rhaid chwarae Llandyrnog i ffwrdd yn rownd gyn-derfynol Cwpan Mawddach. Fel Llanberis, roedd rhaid i Lanrug chwarae draw ar gae pob-tywydd y Bala. Roedd hyn yn plesio yn amlwg gyda Llanrug yn ennill 4-1, diolch i goliau Dafydd Noel, Gethin Phillips, Jonathan Sadler ac Alan Mark.

Ymlaen felly i wynebu Glantraeth yn y rownd derfynol, efallai ar Nantporth. Yr unig broblem o hyd yw bod Llanrug wedi chwarae 6 gêm cynghrair yn llai na rhai o'r timau uwch eu pen. Mae hyn yn batrwm rheolaidd yn y gynghrair yma ers sawl tymor. Oes gormodedd o gemau Cwpan?

Diolch fyth nad yw'r awdurdodau am ganiatau beth mae rhai yn galw amdano, sef 'toriad gaeafol' i roddi cyfle i'r meysydd gael gorffwys. Yna fuasem ni'n sôn am chwarae i mewn i ddiwedd Mai.

## ABWYD I'R IFANC

Yr her i bob camp yw creu sefyllfa o olyniaeth drwy gynnal diddordeb a meithrin sgiliau cynhenid y genhedlaeth 'nesaf'. Mae hyn yn wir ym myd pysgota. Ers sawl tymor bellach mae ein Cymdeithas Bysgota Leol wedi meithrin y diddordeb. Bu sawl ymweliad ag ysgolion lleol, trefnwyd ambell gwrs undydd, ac mae ymweliad â'r ddeorfa draw yng Nghrawia yn brofiad pleserus. Hefyd, bu'r Ysgrifennydd gweithgar yn cynnal y fflam 'Ar Ben Arall y Lein' yn fisol. Bu'r Gymdeithas yn hael yn rhoddi trwyddedau bysgota yn rhad ac am ddim i bysgotwyr oedran Ysgol.

Newyddion da felly fod penderfyniad cenedlaethol bellach i ymestyn yr haelioni yma o gyfeiriad Cyfoeth Naturiol Cymru i roddi trwyddedau rhad ac am ddim i'r holl enweirwyr rhwng 12 ac 18 oed. Gobeithio bydd hyn yn sbardun i gynnal y diddordeb yn un o gampau naturiol cefn gwlad.

## AR EI FEIC

Gobeithio eich bod wedi deall mai at Olygydd yr Eco – DWhT – nid y Golygydd Chwaraeon roedd y cyfeiriad a lusgodd i mewn i gornel y Colofnau Chwaraeon y mis diwethaf. Llongyfarchiadau iddo ar gyrraedd oed yr addewid, ac am ei gamp o seiclo 70 milltir ar y beic di-symud i godi arian i Ysgol Pendalar. Llwyddodd i godi swm sylweddol at yr achos teilwng yma. Bydd yn rhaid i minnau ddechrau meddwl am syniad – ond mae gennyf ddigon o amser i feddwl tan y diwrnod mawr!

ECO'r Wyddfa
Cefnogwch ein hysbysebwyr

# Chwaraeon




## TYMOR CHWERW/FELYS

Dyna fu hi hyd yn hyn i Rhun Williams, seren leol y bêl-hirgron. Ar lefel clwb cafodd ambell gêm i dîm cyntaf y Gleision ar yr asgell a sgorio tri chais. Gyda thîm dan 20 Cymru cymysglyd fu'r profiadau. Er i ni gael ambell fflach – a'r wefr o sgorio ei gais rhyngwladol cyntaf draw yn yr Alban – rhoed sgiliau amddiffyn Rhun dan y chwydd-wydr fwyfwy. Cafwyd rhedeg ffri yn y gemau draw yn yr Eidal a'r Alban, ac yna gemau corfforol iawn yn erbyn cewri Lloegr, Ffrainc a'r Iwerddon. Gwelais y ddwy gêm gartref yn erbyn y Saeson a'r Gwyddelod, a chyfrannodd Rhun yn helaeth yn y golled yn erbyn y Gwynion a'r fuddugoliaeth mewn gêm hynod yn erbyn y Gwyddelod. Yn sicr, bydd Rhun yn y garfan ar gyfer Cwpan y Byd draw yn Georgia yr haf yma. Dymunwn yn dda iddo, gan gofio fod ganddo flwyddyn arall yn yr oedran yma.

Gyda llaw, a welwyd y fath ddiffiniad o drefnu gêm bwysig ar faes di-gysylltiad. Rownd gyn-derfynol Cwpan Rygbi Cymru rhwng RGC a Merthyr. Y dewis – Heol Sardis, Pontypridd; 15 milltir o Ferthyr a dros 150 milltir o'r Gogledd. Mae Llywelyn yn gwenu yn ei fedd wrth sylwi fod hen diriogaeth Tywysogion Gwynedd yn ymestyn cyn gymaint i'r Deheudir!





## TRYDYDD GWAITH LLWYDDIANNUS?

Dyna'n sicr fydd bwriad tîm pêl-droed dan 16 Llanberis y tymor yma. A'r nod? cael eu dwylo ar Gwpan Ieuenctid -16 Arfordir Gogledd Cymru. Yn y Gynghrair lleol mae'r tîm dawnus yma yn ddiguro drwy'r tymor. Yng Nghwpan yr Arfordir cawsant rediad anhygoel yn curo Conwy (11-0), Blaenau Ffestiniog (3-0), Cyffordd Llandudno (1-0), Bodorgan (3-2) ac, yn y rownd gyn-derfynol, Penrhyndeudraeth i ffwrdd o 7-2. Mae nhw'n sgorwyr o fri ac yn gyndyn i ildio. Byddant yn herio Dinbych yn y rownd derfynol ar Ebrill 29.

Y mae'r garfan yma wedi bod gyda'i gilydd ers 4 blynedd bellach gyda nifer o'r garfan yn lifrau Ysgol Brynrefail wedi cipio'r Cwpan Cenedlaethol. Ond, pan gyrhaeddon nhw y rownd derfynol, fel carfannau -12 a -14 yng Nghwpan yr Arfordir, colli fu eu hanes. Dyma'r cyfle olaf felly i'r garfan gael gafael yn y tlws. Dymunwn y gorau iddynt eleni.

## SIALENS 500 MILLTIR



Mae'r Sialens yn parhau, ond ni fu mis Mawrth mor llwyddiannus i Fiona a Hugh. Cwblhawyd Ras Parc Penrhyn ddechrau'r mis, ac yna ddiwrnod yn ddiweddarach rhaid oedd wynebu Hanner Marathon Môn. Yn anffodus cafodd Hugh anaf a bu'n rhaid iddo dynnu allan o'r ras ar ôl 10 cilomedr, ond aeth Fiona ymlaen i gwblhau'r 13 milltir a hanner. Wythnos yn ddiweddarach ac yr oedd Marathon Wrecsam yn eu hwynebu, ond y bore canlynol roedd Fiona yn wael, a bu yn yr ysbyty. Felly, mae paratoadau'r ddau wedi eu drysu gryn dipyn!

Ond gyda'r gwanwyn bellach wedi cyrraedd – a llawer mwy o rasys i'w dewis, mae'r ddau yn mawr obeithio y daw gwell lwc gyda'r her.